Rhif: **WG27293**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – ymateb y Llwodraeth

# Manteisio i'r Eithaf ar Bob Diferyn

Diwygio'r System Rheoli Tynnu Dŵr yng Nghymru

17 Rhagfyr 2013 – 28 Mawrth 2014

Dyddiad cyhoeddi: **Ionawr 2016**

ISBN digidol 978 1 4734 5528 3
© Hawlfraint y Goron 2016

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ
Ffôn 02920 825509
Gwefan: www.cymru.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2015
Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol yn perthyn i'r Goron.

Gellir ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos yr adrannau) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad.

Mae gwybodaeth am y cyhoeddiad hwn a chopïau eraill ar gael oddi wrth:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 02920 825509

Ebost: dwr@cymru.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru
http://www.cymru.gov.uk/

Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| 1. Crynodeb Gweithredol | Tudalen 2 |
| 2. Cyflwyniad | Tudalen 5 |
| 3. System ddiwygiedig ar gyfer rheoli tynnu dŵr – y prif ddull gweithredu | Tudalen 11 |
| 4. Gwella hyblygrwydd er mwyn ymateb i broblemau tymor byr yn ymwneud ag argaeledd dŵr | Tudalen 15 |
| 5. Gwella'r broses o reoli dŵr mewn ffordd gynaliadwy a hirdymor gan gefnogi twf a buddsoddi | Tudalen 25 |
| 6. Trosglwyddo i'r system ddiwygiedig | Tudalen 36 |
| 7. Crynodeb o gynigion ar gyfer y broses ddiwygio | Tudalen 43 |
| 8. Amserlen a'r Camau Nesaf | Tudalen 44 |
| Atodiadau: | |
| A: Aelodaeth y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio'r System Tynnu Dŵr | Tudalen 46 |
| B: Briff ar Hydroecoleg – Diwygio'r system tynnu dŵr a hydroecoleg | Tudalen 47 |
| C: Briff ar Ddŵr Daear - Diwygio'r system tynnu dŵr a hydroddaeareg | Tudalen 50 |
| D: Geirfa | Tudalen 53 |

# 1.Crynodeb Gweithredol

Dŵr yw un o'n hasedau naturiol mwyaf gwerthfawr ac mae'n rhan annatod o ddiwylliant, treftadaeth a hunaniaeth genedlaethol Cymru. Mae'n llunio ein hamgylchedd a'n tirweddau naturiol, gan ddarparu ymdeimlad o berthyn i fynyddoedd, cymoedd ac arfordiroedd a chefnogi bywyd gwyllt amrywiol Cymru. Mae'n darparu sail ar gyfer datblygiad economaidd, gan gynnwys cyflenwad ynni a thwristiaeth. Mae mynediad i gyflenwadau dŵr glân, diogel a chydnerth hefyd yn chwarae rhan hanfodol yn y broses o gefnogi iechyd a lles pawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru a phawb sy'n ymweld â hi.

Mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am reoli adnoddau dŵr, gan gynnwys rheoleiddio'r system tynnu dŵr. Tynnu dŵr yw'r broses o dynnu dŵr o adnoddau naturiol fel afonydd, llynnoedd a dyfrhaenau a dyma'r broses a ddefnyddir i ddiwallu'r rhan fwyaf o'n hanghenion cyflenwad dŵr yng Nghymru. Os ydym yn eithrio dŵr a drwyddedir at ddefnydd nad yw'm ddarfodadwy, er enghraifft ynni dŵr, mae mwyafrif helaeth y dŵr a gaiff ei dynnu yng Nghymru yn cyfrannu at y cyflenwad dŵr cyhoeddus, ac mae tynnu dŵr at ddibenion diwydiannol yn elfen sylweddol yn hyn o beth. Caiff y broses ei rheoleiddio drwy system o drwyddedau a gyhoeddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Sefydlwyd y broses o drwyddedu gwaith tynnu dŵr yn 1963 ond nid yw'n ddigon hyblyg i ymdrin â'r heriau sydd ynghlwm wrth argaeledd dŵr yn y dyfodol na'r angen i ddiogelu ein hamgylchedd naturiol.

Er mwyn sicrhau bod gennym adnoddau dŵr cryf a chydnerth rydym yn ymrwymedig i ddiwygio'r system trwyddedu tynnu dŵr yng Nghymru. Ein nod yw creu dull gwell, tecach a mwy cyfoes a fydd yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau dŵr yn ogystal â diogelu'r amgylchedd.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a'r DU ymgynghoriad ar y cyd o'r enw **"**Manteisio i'r Eithaf ar Bob Diferyn" (Saesneg yn unig) yn 2013 a oedd yn ystyried cynigion ar gyfer diwygio'r system tynnu dŵr. Ers hynny rydym wedi cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2014 ac wedi parhau i weithio gyda phartïon sydd â diddordeb er mwyn datblygu ein cynigion. Y ddogfen hon yw ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ac mae'n nodi'r dull a ffefrir yng Nghymru mewn perthynas â diwygio a'r ffordd y byddwn yn datblygu fframwaith deddfwriaethol newydd ar y cyd â Llywodraeth y DU.

**Cynigion cyffredinol**

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein cynlluniau arfaethedig ar gyfer diwygio'r system rheoli tynnu dŵr yng Nghymru, gan ystyried y mewnbwn a dderbyniwyd gan amrywiaeth o bartïon sydd â diddordeb. Mae'n amlinellu sut

y byddwn yn cyflawni'r nodau hyn mewn ffordd sy'n cydbwyso anghenion defnyddwyr busnes gwahanol a'r amgylchedd.

Yn gryno, bydd y system newydd ar gyfer rheoli tynnu dŵr yn golygu:

- **Bydd caniatadau tynnu dŵr newydd yn cael eu cyhoeddi yng Nghymru o ddechrau 2020 ymlaen, gyda chyfeintiau a ganiateir a fydd yn adlewyrchu defnydd busnes cyfredol ac a fydd yn debyg i drwyddedau cyfredol o ran dibynadwyedd.** Caiff cyfraddau defnydd dŵr uchaf blaenorol tynwyr dŵr eu hystyried dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy, gan gynnwys blynyddoedd sych. Rydym yn ystyried dileu 'Dŵr papur' (cyfeintiau tynnu dŵr a drwyddedir ond nas defnyddir), yn amodol ar apêl. Caiff amodau dim ymyrryd â'r llif ac amodau tebyg eu safoni er mwyn symleiddio'r system.

- **Bydd gan dynwyr dŵr yr hawl i gymryd dŵr a'i storio ar unrhyw adeg pan fydd llifau'n uchel.** Ni fydd caniatadau tymhorol ar gael bellach. Bydd y caniatadau newydd yn caniatáu i dynwyr dŵr gymryd dŵr ar unrhyw adeg pan fydd llifau'n uchel, yn amodol ar reolau'r dalgylch, sy'n golygu y gallant storio dŵr ar gyfer pan fydd llifau'n isel.

- **Bydd amodau'n cael eu gosod ar ganiatadau'r holl dynwyr dŵr sy'n effeithio ar ddyfroedd wyneb er mwyn galluogi rheolaethau sy'n seiliedig ar lif a fydd yn diogelu'r amgylchedd.** Bydd amodau newydd ar ganiatadau'r rhai nad oes ganddynt reolaethau sy'n seiliedig ar lif ar hyn o bryd.

- **Ni fydd terfyn amser ar unrhyw ganiatâd, gan sicrhau dull tecach.** Bydd caniatadau'n cael eu hadolygu yn unol â dull sy'n seiliedig ar risg a fydd yn ystyried pob deiliad caniatâd yn unigol ac yn deg. Rhoddir rhybudd rhesymol o unrhyw newidiadau posibl er mwyn rhoi amser i dynwyr dŵr addasu. Ni fydd unrhyw iawndal ar gyfer newidiadau i ganiatadau.

- **Bydd tynwyr dŵr yn gallu masnachu dŵr mewn ffordd gyflymach a haws mewn dalgylchoedd lle mae manteision posibl.** Yn y dalgylchoedd hynny, bydd amrywiaeth o fasnachau a gymeradwywyd ymlaen llaw, sy'n golygu y gall deiliaid caniatadau fasnachu'n haws nag yn y system gyfredol.

Mae gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gydweledigaeth ar gyfer dyfodol y system rheoli tynnu dŵr ac rydym yn rhannu nifer o ddalgylchoedd trawsffiniol pwysig. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu'r diwygiadau arfaethedig a bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi datganiad ar wahân yn nodi ei chynigion ar gyfer ymdrin â'r

diwygiadau yn Lloegr. Rydym yn bwriadu datblygu cyd-ddeddfwriaeth sy'n darparu fframwaith cyffredin ar gyfer gweithredu'r system newydd yng Nghymru a Lloegr.

**Cyflawni adnoddau dŵr cynaliadwy a chydnerth ar gyfer Cymru**

Mae diwygio'r system rheoli tynnu dŵr yn rhan o ddull ehangach i sicrhau bod gennym adnoddau dŵr cryf a chydnerth ar gyfer yr hirdymor. Bydd y newid yn yr hinsawdd a thwf y boblogaeth yn rhoi'r rhain dan bwysau cynyddol ac mae angen inni sicrhau ein bod yn rhoi systemau ar waith nawr a fydd yn ein galluogi i reoli ein hadnoddau dŵr mewn ffordd gynaliadwy yn yr hirdymor. Mae rheoli'r ffordd rydym yn tynnu dŵr yn rhan gyntaf bwysig o'r broses ac mae'n perthyn i gyd-destun ehangach y gwaith o reoli adnoddau naturiol.

Cyn i'r broses ddiwygio hirdymor ddechrau, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i fynd i'r afael â'r broblem o dynnu dŵr sy'n achosi niwed nawr i'n hafonydd a'n dŵr daear.  Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn newid 25 o drwyddedau yng Nghymru ar hyn o bryd lle mae risgiau sylweddol bod y broses o dynnu dŵr yn niweidio safleoedd cadwraeth pwysig gan gynnwys safleoedd Natura 2000 a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Yn dilyn ymchwiliadau blaenorol, mae cyfanswm o 44 o drwyddedau tynnu dŵr eisoes wedi cael eu newid er mwyn diogelu safleoedd Natura 2000. Mae pwysau o ran tynnu dŵr yn allweddol wrth ystyried methiant rhai cyrff dŵr i fodloni rhwymedigaethau Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE ar statws ecolegol da. Mae'n bosibl bod effeithiau tynnu dŵr yn achosi neu'n cyfrannu at fethiant i gefnogi statws ecolegol da mewn 2% o gyrff dŵr yng Nghymru[1]. Bwriedir ymdrin â'r mater hwn fel rhan o Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Yn ogystal, rydym eisiau dod â nifer o ddulliau tynnu dŵr sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd o dan reolaeth trwyddedu er mwyn sicrhau tegwch i bob tynnwr dŵr, a galluogi penderfyniadau yn y dyfodol ar ddalgylchoedd cynaliadwy i gael eu gwneud ar sail defnyddio darlun llawn o ddefnydd dŵr. Mae dileu'r eithriadau hyn yn gam allweddol ar y llwybr tuag at i ddiwygio'r system tynnu dŵr am ei fod yn creu sefyllfa deg ar gyfer y system ddiwygiedig, yn ogystal ag ystyried anghenion yr amgylchedd. I gyd-fynd â'r ddogfen hon, rydym yn ymgynghori ar gynigion i sicrhau bod y mwyafrif o'r tynwyr dŵr sydd wedi'u heithrio yn dod yn rhan o'r gyfundrefn ar gyfer trwyddedu dŵr (a elwir yn Awdurdodiadau Newydd) gan ddefnyddio dull ysgafn, sy'n seiliedig ar risg.

---

[1] Dyfroedd Byw i Gymru – Gwybodaeth Ategol ar gyfer Ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau Cymru http://naturalresources.wales/about-us/consultations/our-own-consultations-closed/challenges-and-choices-consultation/?lang=cy

## 2. Cyflwyniad

Rheoli ein hadnoddau mewn ffordd gynaliadwy yw un o amcanion allweddol Llywodraeth Cymru. Ein nod yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a ddarperir ganddynt, a thrwy wneud hynny, diwallu anghenion cenedlaethau presennol heb gael effaith andwyol ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.

Ein gweledigaeth gyffredinol yw sicrhau bod gan Gymru amgylchedd dŵr sy'n ffynnu a gaiff ei reoli mewn ffordd gynaliadwy er mwyn cefnogi cymunedau iach, busnesau llewyrchus a'r amgylchedd. Nod ein hegwyddor allweddol ar gyfer datblygu cynaliadwy, a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yw cyflawni ansawdd bywyd gwell ar gyfer ein cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol mewn ffordd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal ac yn gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol a pharchu ei gyfyngiadau.

Gwella'r ffordd y caiff ein hadnoddau dŵr eu rheoli fydd sail ein Nodau Llesiant, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud â ffyniant, iechyd, cydnerthedd a chyfrifoldeb byd-eang.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein hymatebion i ymgynghoriad helaeth â rhanddeiliaid ar ddiwygio'r system rheoli tynnu dŵr.  Mae'n nodi'r dull a ffefrir yng Nghymru mewn perthynas â diwygio a'r ffordd y byddwn yn datblygu fframwaith deddfwriaethol newydd ar y cyd â Llywodraeth y DU.

### Pam diwygio?

Sefydlwyd y system gyfredol ar gyfer trwyddedu gwaith tynnu dŵr yn y 1960au ac nid yw'n ddigon hyblyg i ymateb i'r pwysau ar yr amgylchedd, gofynion busnes ac anghenion ein cyflenwad dŵr cyhoeddus, o gofio'r newid yn yr hinsawdd a thwf y boblogaeth. Nid yw'r system yn diwallu anghenion tynwyr dŵr. Er enghraifft, mae system dwy haen yn bodoli lle mae terfynau amser ar drwyddedau mwy diweddar, ond mae elfen o sicrwydd gan drwyddedau hŷn, sy'n golygu bod y rhai sy'n meddu ar drwyddedau sydd â therfynau amser yn wynebu risgiau annheg. Nid yw'n diwallu anghenion yr amgylchedd chwaith; mae newid trwyddedau i ddiogelu'r amgylchedd yn llafurus ac yn gostus gyda 2%[2] o gyrff dŵr a aseswyd yn ddiweddar yn parhau i fethu â chyrraedd safonau amgylcheddol o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn tynnu gormod o ddŵr.

[2] Dyfroedd Byw i Gymru – Gwybodaeth Ategol ar gyfer Ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau Cymru http://naturalresources.wales/media/1629/dyfroedd-byw-i-gymru.pdf

Nododd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i ddiwygio'r system rheoli tynnu dŵr yng Nghymru yn y Strategaeth Ddŵr i Gymru a gyhoeddwyd ym mis Mai 2015. Ein nod yw diwygio'r ffordd y caiff y gwaith o dynnu dŵr (y broses o dynnu dŵr yn uniongyrchol o ffynonellau dŵr, fel afonydd, neu ddŵr daear) ei reoleiddio yng Nghymru er mwyn creu dull gwell, tecach a mwy modern a fydd yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau dŵr a diogelu'r amgylchedd.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a'r DU ymgynghoriad ar y cyd, "Manteisio i'r Eithaf ar Bob Diferyn" (Saesneg yn unig), ym mis Rhagfyr 2013. Diben yr ymgynghoriad oedd ceisio barn ar amrywiaeth o gynigion ar gyfer diwygio'r system rheoli tynnu dŵr yng Nghymru a Lloegr. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2014.

Yn ystod yr ymgynghoriad daeth amrywiaeth eang o ymatebion i law oddi wrth fusnesau, cyrff anllywodraethol a rhanddeiliaid eraill a chafwyd cefnogaeth eang ar gyfer y broses ddiwygio. Ers hynny, bu ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid ar y materion a godwyd ganddynt.

## Nodau'r broses ddiwygio

Ein nod yw cyflwyno system ddiwygiedig ar gyfer rheoli tynnu dŵr sy'n gwneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau dŵr naturiol yng Nghymru, gan gefnogi twf economaidd cynaliadwy a diogelu lles pobl Cymru a chydnerthedd ein hadnoddau naturiol. Diben ein diwygiadau yw creu system rheoli tynnu dŵr sy'n:

1. galluogi ymatebion mwy hyblyg a thecach i newidiadau tymor byr mewn llifau;
2. rheoli adnoddau dŵr yn fwy effeithiol drwy:
    a. sicrhau bod caniatâd tynnu dŵr yn seiliedig ar angen rhesymol ac nad yw'n 'cloi' dŵr yn ddiangen;
    b. annog defnydd effeithlon o ddŵr;
3. darparu sicrwydd digonol ar gyfer buddsoddiad a thwf hirdymor a diogelu'r amgylchedd hefyd; a
4. gallu ymateb i bwysau yn y dyfodol, fel y newid yn yr hinsawdd a thwf y boblogaeth, gan gefnogi gwaith gwell o ran rheoli dalgylchoedd a chefnogi'r dull o gynllunio gwaith rheoli'n seiliedig ar ardal a fabwysiadwyd ar gyfer Cymru.

Rydym eisiau gwneud hyn mewn ffordd sy'n sicrhau'r costau gweinyddol lleiaf posibl ar gyfer tynwyr dŵr a rheoleiddwyr, gan barhau i gyflawni ein nodau. Mae'n ymwneud â rheoleiddio mwy synhwyrol sy'n lleihau costau ymdrin â

heriau'r dyfodol i fusnesau. Rydym hefyd eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn symud i system newydd sy'n ystyried y dŵr sydd ei angen ar dynwyr dŵr ar gyfer eu busnesau.

Mae gennym amrywiaeth o fesurau ar waith i sicrhau ein bod yn parhau i ymdrin ag achosion cyfredol o dynnu dŵr mewn ffordd anghynaliadwy cyn cychwyn ar y broses ddiwygio.

### Asesiad o effaith

Mae'r polisi a nodwyd yn y datganiad hwn wedi cael ei lywio gan asesiad o effaith y gellir ei weld yma: *https://consult.defra.gov.uk/water/abstraction-reform/supporting_documents/abstractionreformconsultannexa20131217.pdf* Cynhwysir y prif ganlyniadau ar gyfer Cymru yn Atodiad A.

### Gweithio gyda rhanddeiliaid

Rydym wedi gweithio'n agos gydag amrywiaeth o randdeiliaid i ddatblygu ein tystiolaeth, ar gyfer y cynigion a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad ac wrth ddatblygu'r cynigion hynny i'w cynnwys yn ein sefyllfa gyfredol a amlinellir yn y ddogfen hon. Mae Cyd-grŵp Cynghori ar Ddiwygio'r System Tynnu Dŵr ar gyfer Cymru a Lloegr (gweler Atodiad A am fanylion), sy'n cynnwys cynrychiolwyr ein rhanddeiliaid allweddol, wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at y broses o ddatblygu polisi.

Rydym hefyd wedi archwilio, gyda thynwyr dŵr, sut y gallai problemau gydag argaeledd dŵr yn y dyfodol effeithio arnynt, sut y gallent addasu i hyn ac effaith bosibl ein cynigion ar eu busnesau. Fel rhan allweddol o ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth, bu rhanddeiliaid a fynychodd ein gweithdai yn Wrecsam, Caerdydd a'r Fenni yn ein helpu i ddeall sut y gallai tynwyr dŵr ymateb mewn dalgylchoedd sydd â nodweddion gwahanol. Defnyddiwyd yr holl wybodaeth hon i helpu i ddatblygu ein modelau a mesur effeithiau unrhyw newidiadau.

Fel rhan o'r broses ymgynghori cynhaliwyd nifer o weithdai ar ddechrau 2014 er mwyn siarad â rhanddeiliaid ynghylch y newidiadau arfaethedig, a defnyddiwyd dulliau eraill fel Trydar a Deialogau Digidol i gyrraedd mwy o bartïon sydd â diddordeb. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar amrywiaeth o faterion ers hynny. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut mae trafodaethau â rhanddeiliaid wedi dylanwadu ar ein meddylfryd a'n gwaith datblygu polisi yn yr adrannau isod.

## Y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cynigion lefel uchel ar gyfer system rheoli tynnu dŵr newydd yng Nghymru. Rhennir gweddill y ddogfen yn adrannau fel a ganlyn:

- Adran 3 – ein prif ddull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â'r broses ddiwygio
- Adran 4 – y mesurau a gynigiwn er mwyn cysylltu caniatadau ag argaeledd dŵr a galluogi ymatebion hyblyg i lifau uchel ac isel tymor byr;
- Adran 5 – y mesurau a gynigiwn i gefnogi sicrwydd digonol ar gyfer buddsoddiad hirdymor gan ddiogelu'r amgylchedd hefyd;
- Adran 6 – sut rydym yn bwriadu symud i'r system tynnu dŵr newydd;
- Adran 7 – crynodeb o'r dull arfaethedig; a
- Adran 8 – beth sy'n digwydd nesaf gyda'r broses o ddiwygio'r system tynnu dŵr.

## Diwygio'r system tynnu dŵr yn Lloegr

Mae gan Lywodraeth Cymru a'r DU gydweledigaeth ar gyfer dyfodol y system rheoli tynnu dŵr. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos â Llywodraeth y DU i ddatblygu'r diwygiadau arfaethedig a bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi datganiad ar wahân yn nodi ei chynigion ar gyfer ymdrin â'r diwygiadau yn Lloegr. Mae'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad yn ymwneud â'r system tynnu dŵr yng Nghymru. Rydym yn bwriadu datblygu cyd-ddeddfwriaeth sylfaenol a chydweithio'n agos er mwyn rheoli dalgylchoedd trawsffiniol.

## Y dull ehangach o sicrhau cydnerthedd

Mae diwygio'r system rheoli tynnu dŵr yn un rhan o ddull ehangach o sicrhau bod gennym adnoddau dŵr cryf a chydnerth yng Nghymru yn yr hirdymor. Bydd y newid yn yr hinsawdd a thwf y boblogaeth yn rhoi mwy o bwysau ar ein hadnoddau dŵr ac mae angen inni sicrhau ein bod yn rhoi systemau ar waith nawr a fydd yn ein galluogi i'w rheoli mewn ffordd gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

## Ymdrin ag achosion cyfredol o dynnu dŵr mewn ffordd anghynaliadwy

Cyn i'r broses ddiwygio hirdymor ddechrau, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i fynd i'r afael â'r broblem o dynnu dŵr mewn ffordd sy'n achosi niwed i'n hafonydd a'n dŵr daear.  Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn newid 25 o drwyddedau yng Nghymru ar hyn o bryd lle mae risgiau sylweddol bod y

broses o dynnu dŵr yn niweidio safleoedd cadwraeth pwysig gan gynnwys safleoedd Natura 2000 a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Yn dilyn ymchwiliadau blaenorol, mae cyfanswm o 44 o drwyddedau tynnu dŵr eisoes wedi cael eu newid er mwyn diogelu safleoedd Natura 2000. Mae pwysau o ran tynnu dŵr yn allweddol wrth ystyried methiant rhai cyrff dŵr i fodloni rhwymedigaethau Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE ar statws ecolegol da. Mae'n bosibl bod effeithiau tynnu dŵr yn achosi neu'n cyfrannu at fethiant i gefnogi statws ecolegol da mewn 2% o gyrff dŵr yng Nghymru[3]. Ymdrinnir â'r mater hwn fel rhan o Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Yn ogystal, rydym eisiau dod â nifer o ddulliau tynnu dŵr sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd o dan reolaeth trwyddedu er mwyn sicrhau tegwch i'r holl dynwyr dŵr, a galluogi penderfyniadau yn y dyfodol ar ddalgylchoedd cynaliadwy i gael eu gwneud gan ddefnyddio darlun llawn o ddefnydd dŵr. Mae dileu'r eithriadau hyn yn gam allweddol ar y llwybr i ddiwygio'r system tynnu dŵr am ei fod yn creu cyfle cyfartal ar gyfer y system ddiwygiedig drwy gymhwyso'r un rheolaethau i bawb. Ar hyn o bryd, mae'n bosibl y bydd rhai dulliau o dynnu dŵr sydd wedi'u heithrio yn achosi niwed amgylcheddol, ond gallant barhau heb eu gwirio am nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaethau. Mae hyn yn golygu bod tynwyr dŵr trwyddedig yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb o reoli adnoddau dŵr a diogelu'r amgylchedd.

I gyd-fynd â chyhoeddi'r datganiad hwn, rydym yn ymgynghori ar gynigion i sicrhau bod y mwyafrif o'r tynwyr dŵr sydd wedi'u heithrio yn dod yn rhan o'r gyfundrefn ar gyfer trwyddedu dŵr (a elwir yn Awdurdodiadau Newydd) gan ddefnyddio dull ysgafn, sy'n seiliedig ar risg[4]. Rydym yn disgwyl i'r trwyddedau gael eu cyhoeddi ar sail defnydd gwirioneddol diweddar, a chânt eu cyfyngu neu eu gwrthod pan fydd risg o niwed difrifol i'r amgylchedd. Drwy hyn, byddwn yn gweithredu, yn yr un modd ag y gwnawn i bawb sy'n meddu ar drwydded, er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu.

Bydd dod ag Awdurdodiadau Newydd o dan reolaeth drwyddedu hefyd yn ein galluogi i fodloni Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE, sy'n gofyn inni sicrhau rheolaeth dros dynnu dŵr, ac eithrio'r rhai nad ydynt yn cael effaith sylweddol ar statws dŵr.

---

[3] Dyfroedd Byw i Gymru – Gwybodaeth Ategol ar gyfer Ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau Cymru http://naturalresources.wales/about-us/consultations/our-own-consultations-closed/challenges-and-choices-consultation/?lang=cy

[4] https://consult.defra.gov.uk/water/water-abstraction-licensing-exemptions

## Rhagor o wybodaeth

Yn ystod yr ymgynghoriad, derbyniwyd cais am ragor o wybodaeth am ddiogelu'r amgylchedd ac effeithiau'r broses ddiwygio ar dynnu dŵr daear. Rydym wedi cyhoeddi dau friff ar wahân sy'n trafod y materion hyn yn fanylach fel Atodiadau i'r ddogfen hon (gweler Atodiad B – Hydroecoleg ac Atodiad C – Dŵr daear).

# 3. System ddiwygiedig ar gyfer rheoli tynnu dŵr – y prif ddull gweithredu

## Cefndir

Yn yr ymgynghoriad *"Manteisio i'r eithaf ar bob diferyn"* (Saesneg yn unig), nodwyd dau brif opsiwn ar gyfer y broses ddiwygio. Datblygwyd yr opsiynau hyn drwy weithio'n agos gyda rhanddeiliaid. Galwyd y rhain yn 'System Gyfredol a Mwy' a 'Chyfrannau Dŵr'. Yn yr un modd â'r system gyfredol, byddai'r cynigion hyn yn berthnasol i achosion o dynnu dŵr sy'n fwy na 20 metr ciwbig y diwrnod.

Roedd nifer o nodweddion a oedd yn gyffredin i'r ddau opsiwn, megis anelu at dynnu cymaint o ddŵr â phosibl a gwneud y broses o fasnachu dŵr ymysg ei gilydd yn gyflymach ac yn haws i dynwyr dŵr.

Y gwahaniaeth allweddol rhwng opsiwn System Gyfredol a Mwy a'r opsiwn Cyfrannau Dŵr oedd y byddai tynwyr dŵr, o dan y cynnig Cyfrannau Dŵr, yn derbyn cyfran o gyfanswm y dŵr oedd ar gael a dyraniadau tymor byr amrywiol yn seiliedig ar y cyfrannau hyn, yn hytrach na chyfaint sefydlog o ddŵr.

Ar gyfer y ddau opsiwn, cynigiwyd y byddai'r system o gysylltu argaeledd dŵr â chaniatadau tynnu dŵr yn aros yn debyg i'r system bresennol yn y mwyafrif o ddalgylchoedd. Mewn dalgylchoedd lle mae llai o ddŵr ar gael, a elwir yn 'ddalgylchoedd sy'n destun amodau llymach', ac felly lle mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno rheolaethau ychwanegol, cynigiwyd darparu set ehangach o offer ar gyfer rheoli tynnu dŵr. Yn benodol, cynigiwyd y dylid gwneud y broses o gymeradwyo masnachau ymlaen llaw yn haws er mwyn i dynwyr dŵr o fewn dalgylch allu gwneud y defnydd gorau posibl o ddŵr ymysg ei gilydd. Mae Cyfrannau Dŵr yn caniatáu ar gyfer dyraniadau tymor byr sy'n golygu y gellir caniatáu i amrywiaeth fwy o fasnachau gael eu cymeradwyo ymlaen llawn nag a wneir wrth ddilyn y System Gyfredol a Mwy.

## Nodweddion allweddol y dull gweithredu arfaethedig

Gan ddefnyddio adborth o'r ymgynghoriad, rydym wedi datblygu dull arfaethedig sy'n cyfuno elfennau gorau'r opsiynau a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Caiff ein cynigion ar gyfer y broses ddiwygio eu nodi'n fanylach yn adran 4 a 5, ac mae adran 7 yn egluro'n fanylach sut y byddwn yn newid i'r system newydd (trosglwyddo).

Yn gryno, bydd y system newydd ar gyfer tynnu dŵr yn golygu:

- **Bydd caniatadau tynnu dŵr newydd yn cael eu cyhoeddi yng Nghymru o ddechrau 2020 ymlaen, gyda chyfeintiau a ganiateir a fydd yn adlewyrchu defnydd busnes cyfredol ac a fydd yn debyg i drwyddedau cyfredol o ran dibynadwyedd.** Caiff cyfraddau defnydd dŵr uchaf blaenorol tynwyr dŵr ei ystyried dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy, gan gynnwys blynyddoedd sych. Rydym yn ystyried dileu 'Dŵr papur' (cyfeintiau tynnu dŵr a drwyddedir ond nas defnyddir), yn amodol ar apêl. Caiff amodau dim ymyrryd â'r llif ac amodau tebyg eu safoni er mwyn symleiddio'r system.

- **Bydd gan dynwyr dŵr yr hawl i gymryd dŵr a'i storio ar unrhyw adeg pan fydd llifau'n uchel.** Ni fydd caniatadau tymhorol ar gael bellach. Bydd y caniatadau newydd yn caniatáu i dynwyr dŵr gymryd dŵr ar unrhyw adeg pan fydd llifau'n uchel, yn amodol ar reolau'r dalgylch, sy'n golygu y gallant storio dŵr ar gyfer pan fydd llifau'n isel.

- **Bydd amodau'n cael eu gosod ar ganiatadau'r holl dynwyr dŵr sy'n effeithio ar ddyfroedd wyneb er mwyn galluogi rheolaethau sy'n seiliedig ar lif a fydd yn diogelu'r amgylchedd.** Bydd amodau newydd ar ganiatadau'r rhai nad oes ganddynt reolaethau sy'n seiliedig ar lif ar hyn o bryd.
- **Ni fydd terfyn amser ar unrhyw ganiatâd, gan sicrhau dull tecach.** Bydd caniatadau'n cael eu hadolygu yn unol â dull sy'n seiliedig ar risg a fydd yn ystyried pob deiliad caniatâd yn unigol ac yn deg. Rhoddir rhybudd rhesymol o unrhyw newidiadau posibl er mwyn rhoi amser i dynwyr dŵr addasu. Ni fydd unrhyw iawndal ar gyfer newidiadau i ganiatadau.

- **Bydd tynwyr dŵr yn gallu masnachu dŵr mewn ffordd gyflymach a haws mewn dalgylchoedd lle mae manteision posibl.** Yn y dalgylchoedd hynny, bydd amrywiaeth o fasnachau a gymeradwywyd ymlaen llaw, sy'n golygu y gall deiliaid caniatadau fasnachu'n haws nag yn y system gyfredol.

Bydd y diwygiadau hyn i'r system rheoli tynnu dŵr yn creu dull gwell, tecach a mwy modern a fydd yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau dŵr yn ogystal â diogelu ein hadnoddau naturiol ehangach a'n hecosystemau.

Mae sefydlu 'dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach' mewn ardaloedd lle mae dŵr yn fwy prin a lle mae manteision ynghlwm wrth fasnachu, yn darparu amrywiaeth eang o offer i reoli'r system tynnu dŵr. Bydd y dull hwn sy'n seiliedig ar risg hefyd yn ein galluogi i ymateb i bwysau sy'n newid yn y dyfodol. Dros amser, gall adolygiadau o argaeledd dŵr ddarparu tystiolaeth

sy'n cefnogi'r broses o reoli mwy o ddalgylchoedd yn fanylach (ac o bosibl rhai dalgylchoedd lle y gellir ysgafnhau'r lefel o reolaeth yn y dyfodol). Bydd cyfle hefyd i ddatblygu'r system i gyrraedd safonau amgylcheddol sy'n newid neu ddeddfwriaeth arall yn ôl yr angen.

### Cytuno ar ddull gweithredu arfaethedig

Ystyriwyd y dystiolaeth o'r asesiad o effaith a'r ymatebion o'r ymgynghoriad a'r gwaith ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid wrth gytuno ar y dull gweithredu arfaethedig. Mae'r dull gweithredu hwn yn gymysgedd o elfennau gorau'r System Gyfredol a Mwy a'r dull Cyfrannau Dŵr. Mae'n cyflwyno'r fframwaith cyfrifyddu ar gyfer yr opsiwn Cyfrannau Dŵr, ond yn cadw, i raddau helaeth, y dyraniadau blynyddol, y terfynau dyddiol a'r amodau dim ymyrryd â'r llif sy'n rhan o'r opsiwn System Gyfredol a Mwy.

Yn gryno, rydym wedi dewis ein dull oherwydd drwy gadw, i raddau helaeth, y dyraniadau blynyddol, y terfynau dyddiol a'r amodau dim ymyrryd â'r llif, yn unol â'r system gyfredol a mwy, rydym yn sicrhau cyn lleied o gostau a newidiadau rheoleiddiol â phosibl, gan leihau'r risgiau sydd ynghlwm wrth weithredu. Fodd bynnag, drwy fabwysiadu system sy'n cynnwys y gallu i gyflwyno fframwaith cyfrifyddu sy'n seiliedig ar gyfrannau lle bo angen, rydym yn creu fframwaith mwy hyblyg y gellir ei addasu er mwyn ymateb i bwysau yn y dyfodol, ond gan ganiatáu mwy o hyblygrwydd o ran masnachu sydd ynghlwm wrth fasnachu o fewn dalgylchoedd ehangach a gymeradwywyd ymlaen llaw. Mae hefyd yn pwysleisio natur yr adnodd hwn lle mae angen rhannu, gan annog rhagor o effeithlonrwydd dŵr a rheoli dalgylchoedd yn gydweithredol.

Dangosodd y dystiolaeth o asesiad effaith terfynol yr opsiynau ymgynghori fod manteision sylweddol ynghlwm wrth yr holl gyfuniadau a gynigiwyd ar gyfer y broses ddiwygio o'u cymharu â'r system gyfredol. Fodd bynnag, roedd yn anodd gwahaniaethu rhwng manteision yr opsiynau ar gyfer y broses ddiwygio o ganlyniad i gyfyngiadau'r dystiolaeth.

Mae pob un o'r opsiynau ar gyfer y broses ddiwygio yn cyflawni manteision economaidd gwell ar gyfer Cymru, yn amrywio o werth presennol net o rhwng £2 filiwn a £12 miliwn dros 25 mlynedd. Mae'r manteision yn tueddu i fod yn uwch mewn perthynas â senarios newid yn yr hinsawdd gyda chyfnodau sych iawn gan fod yr opsiynau ar gyfer y broses ddiwygio yn darparu cydnerthedd uwch o lawer yn y sefyllfaoedd hyn. Ceir manylion pellach yn yr asesiad effaith terfynol.

Datgelodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod rhanddeiliaid yn ffafrio elfennau gwahanol o bob un o'r opsiynau a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Datblygwyd ein dull gweithredu arfaethedig i gyfuno elfennau gorau'r

opsiynau hyn o ystyried y sylwadau a ddaeth i law.  Addaswyd nifer o'r cynigion hefyd wrth benderfynu ar y dull gweithredu terfynol, yn arbennig mewn perthynas â newid i'r system newydd.

# 4. Gwella hyblygrwydd er mwyn ymateb i broblemau tymor byr yn ymwneud ag argaeledd dŵr

Mae'r bennod hon yn nodi sut y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r system rheoli tynnu dŵr yn galluogi tynwyr dŵr i fod yn fwy hyblyg wrth ymateb i faterion tymor byr sy'n ymwneud â chyflenwadau dŵr. Mae'n cynnwys ein cynigion i:

- ddileu'r elfen dymhorol o drwyddedau;
- galluogi tynwyr dŵr i gymryd dŵr ychwanegol a'i storio yn ystod cyfnodau o lifau uchel mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach, yn amodol ar reolau'r dalgylch;
- newid rheolaethau cyfredol sy'n seiliedig ar lif a gaiff eu cymhwyso a'u dadgymhwyso mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach yn rheolaethau sy'n cael eu cymhwyso a'u dadgymhwyso'n fwy graddol;
- cysylltu rheolaethau tynnu dŵr â llifau isel a dileu cyfyngiadau penodol mewn cyfnodau o sychder ar chwistrellwyr dyfrhau;
- galluogi masnachu cyflymach a haws mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach.

Mae pob adran yn dangos yr opsiynau a gynhwyswyd yn yrr ymgynghoriad ac yn rhoi mwy o fanylion am ein safbwynt presennol. Mae hyn yn ystyried yr ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad yn ogystal ag ymgynghori ac ymgysylltu llai ffurfiol â rhanddeiliaid, ac yn crynhoi ein cynigion.

## Dileu'r elfen dymhorol o drwyddedau

**Yr hyn a gynigiwyd gennym yn yr Ymgynghoriad:**


- Dileu amodau tymhorol ar drwyddedau a'u disodli gydag amodau sy'n seiliedig ar argaeledd. Bydd hyn yn sicrhau y gellir defnyddio dŵr pan fydd dŵr ar gael unrhyw adeg o'r flwyddyn.

Bydd pob caniatâd tynnu dŵr a roddir o dan y system newydd yn cynnwys terfynau blynyddol a dyddiol ar gyfer pob tynnwr dŵr. Fel rhan o'n nod ar gyfer system deg sy'n cysylltu'r cyfeintiau dŵr a gaiff eu tynnu â'r dŵr sydd ar gael, ni roddir trwyddedau tymhorol bellach[5]. Er enghraifft, ni fydd y broses o dynnu dŵr a'i storio i'w ddefnyddio'n ddiweddarach ar gyfer dyfrhau drwy chwistrellu yn cael ei chyfyngu i adeg o'r flwyddyn ond yn hytrach i argaeledd dŵr. Bydd

[5] Efallai y bydd rhai amgylchiadau cyfyngedig iawn gyda thrwyddedau dŵr daear lle y bydd diffyg data yn golygu bod angen cyfyngiadau tymhorol o hyd.

hyn yn dileu’r dull sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer tynwyr dŵr sy’n dyfrhau drwy chwistrellu. Cafodd y cynnig hwn gryn dipyn o gefnogaeth yn yr ymgynghoriad ac felly nid ydym wedi ei newid.

Er gwaethaf y gefnogaeth fawr, roedd rhai tynwyr dŵr yn poeni ynghylch sut y byddai eu cyfeintiau tymhorol yn cael eu dyrannu ar draws y flwyddyn. O dan y cynigion ar gyfer y broses ddiwygio, byddai’r tynwyr dŵr a oedd yn gallu cymryd eu cyfaint blynyddol yn ystod rhan o’r flwyddyn yn unig yn y gorffennol yn gallu cymryd eu cyfaint blynyddol ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod o 12 mis, yn amodol ar gydymffurfio ag amodau eraill megis amodau dim ymyrryd â’r llif. Mae hyn yn golygu y bydd tynwyr dŵr yn gallu cymryd dŵr pryd bynnag y mae’r llifau’n ddigon uchel, waeth beth fo’r tymor. Dangosir enghreifftiau eraill o sut y caiff trwyddedau tymhorol hanesyddol eu trin o dan y system newydd yn Ffigur 1.




**Ffigur 1 Sut y bydd newidiadau mewn amodau yn effeithio ar dynwyr dŵr sydd â thrwyddedau tymhorol hanesyddol**[6]

Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y gallai caniatáu tynnu dŵr ar unrhyw adeg o’r flwyddyn niweidio safleoedd sy’n amgylcheddol sensitif, yn arbennig ar adegau o lif isel, neu gynyddu’r risg o leihau argaeledd dŵr ar gyfer tynwyr dŵr presennol. Credwn y gellir rheoli’r risgiau hyn gan amodau sy’n seiliedig ar argaeledd yn hytrach nag amodau sy’n seiliedig ar dymhorau. Er enghraifft, ni fyddai tynwyr dŵr a oedd eisoes yn tynnu dŵr yn y gaeaf yn gallu tynnu dŵr

[6] Noder, mae rhai achosion o dynnu dŵr wedi’u cysylltu’n agos iawn â derbynwyr dŵr daear ac mae angen amodau dim ymyrryd â’r llif ychwanegol arnynt

pan fydd y llifau'n isel yn yr haf, oherwydd byddai amodau dim ymyrryd â'r llif yn eu hatal rhag gwneud hynny. Fodd bynnag, byddent yn gallu tynnu dŵr pan fyddai llifau uwch oni bai bod hyn yn gwrthdaro ag amcanion amgylcheddol lleol.

**Crynodeb o'r cynigion:**

- Dileu amodau tymhorol ar drwyddedau a'u disodli gydag amodau sy'n seiliedig ar lif. Bydd hyn yn sicrhau y gellir defnyddio dŵr pan fydd dŵr ar gael ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

## Cymryd a storio dŵr ychwanegol pan fydd llifau'n uchel iawn mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach

**Yr hyn a gynigiwyd gennym yn yr ymgynghoriad:**

- Caniatáu tynnu dŵr ychwanegol pan fydd llifau'n uchel iawn ac ni fydd hyn yn cyfrif tuag at gyfeintiau a ganiateir mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach.

Rydym eisiau i dynwyr dŵr allu cymryd dŵr a'i storio ar adegau pan fydd llifau'n uchel iawn. Mae hyn yn rhan o'r broses o wneud y system yn fwy ymatebol i argaeledd dŵr mewn amser real ac annog y broses o storio dŵr pan fydd llifau'n uchel. Ein dull arfaethedig yw y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn caniatáu i ddŵr ychwanegol gael ei dynnu ('dŵr bonws') pan fydd llifau yn uchel iawn sy'n golygu y gall tynwyr dŵr gymryd dŵr pan fydd dŵr ar gael a'i gadw os dymunant. Yn y sefyllfaoedd hyn, byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn hysbysu tynwyr dŵr bod llifau yn uwch na throthwy penodol. Ni fyddai achosion o dynnu dŵr a gymerir ar yr adeg hon yn cyfrif tuag at y cyfeintiau blynyddol a ganiateir. Ar hyn o bryd rydym yn bwriadu gweithredu hyn mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach yn unig, fel un o'r offerynnau ychwanegol i helpu i wella'r broses o reoli adnoddau mewn dalgylchoedd lle mae dŵr yn brin.  Bydd angen mesuryddion deallus, mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach yn unig, er mwyn gweithredu'r rheolaethau hyn.

Yn ystod yr ymgynghoriad, cafwyd cefnogaeth ar gyfer y cynnig hwn, er bod rhai ymatebwyr wedi nodi y bydd yn bwysig cynnal llifau uchel ar rai adegau o'r flwyddyn ar gyfer anghenion amgylcheddol a chynefinoedd. Gofynnodd sawl ymatebydd sut y byddai 'llifau uchel iawn' yn cael eu cyfrifo. Byddai'r rheolau ar gyfer dalgylchoedd yn ymdrin â'r materion hyn ar sail dalgylch wrth ddalgylch.

**Crynodeb o'r cynigion:**

- Caniatáu proses tynnu dŵr ychwanegol pan fydd llifau'n uchel iawn ac nid yw'n cyfrif tuag at gyfeintiau a ganiateir mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llmach.

### Troi rheolaethau sy'n seiliedig ar lif a gaiff eu cymhwyso a'u dadgymhwyso mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach yn rheolaethau a gaiff eu cymhwyso a'u dadgymhwyso'n fwy graddol

**Yr hyn a gynigiwyd gennym yn yr ymgynghoriad**

- Cysylltu'r broses o dynnu dŵr yn fwy clos â faint o ddŵr sydd ar gael.

System Gyfredol a Mwy (dŵr wyneb):

- Mireinio amodau dim ymyrryd â'r llif er mwyn i gyfyngiadau ar dynnu dŵr yn ddyddiol leihau'n raddol yn hytrach na stopio ar unwaith;

Cyfrannau Dŵr (dŵr wyneb):

- Rhoddir cyfran sefydlog i bawb sy'n tynnu dŵr mewn ffynhonnell ddŵr sydd ar gael (i gyd-fynd â'u trwydded gyfredol neu'n seiliedig ar eu cyfaint trwyddedig cyfredol) sy'n darparu dyraniadau amrywiol tymor byr yn dibynnu ar argaeledd dŵr;
- Mae rhai cyfrannau yn ddibynadwy iawn gan roi mynediad sydd bron yn barhaus i ddŵr;
- Nid yw cyfrannau eraill yn ddibynadwy iawn a dim ond pan fydd llifau yn uchel y bydd mynediad i ddŵr.

O dan y ddau opsiwn, byddai dyraniadau dŵr daear yn gysylltiedig ag argaeledd dŵr daear hirdymor.

Ein nod yw darparu cysylltiad mwy graddol rhwng cyfaint y dŵr a gaiff ei dynnu a lefelau'r llif mewn dalgylch.  Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i dynwyr dŵr addasu i lifau is a'u hannog i ddefnyddio dŵr mewn ffordd fwy effeithlon.

Yn seiliedig ar y farn a fynegwyd gan randdeiliaid a datblygiad technegol pellach, rydym wedi ceisio datblygu elfennau gorau'r ddau opsiwn a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad ac ymateb i'r materion a godwyd gan randdeiliaid. Yn benodol, er bod llawer o randdeiliaid yn cefnogi masnachu haws a chyflymach, cododd y rhanddeiliaid bryderon ynghylch cymhlethdod a dichonoldeb y syniad o ddyraniadau tymor byr amrywiol sydd ynghlwm wrth yr opsiwn cyfrannau dŵr. O ganlyniad, mae ein dull arfaethedig yn gyfuniad o'r elfennau a oedd rhan o'r opsiynau yr ymgynghorwyd arnynt.

#### *Tynwyr dŵr wyneb*

Mewn dalgylchoedd nad ydynt yn destun amodau llymach, bydd tynwyr dŵr yn gweld newid cyfyngedig yn y cysylltiadau rhwng dyraniadau dŵr ac argaeledd dŵr.  Bydd cyfeintiau dyddiol a blynyddol a ganiateir yn cael eu rhoi

i bob tynnwr dŵr, gydag amodau dim ymyrryd â'r llif os oedd ganddynt y rhain yn flaenorol, yn debyg i drwyddedau cyfredol.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn symleiddio'r gofynion dim ymyrryd â'r llif ym mhob dalgylch er mwyn gwneud y system yn llai cymhleth. Mae hyn yn golygu efallai y bydd tynwyr dŵr yn profi rhai newidiadau ond dylai eu mynediad i ddŵr fod yr un mor ddibynadwy ag y mae ar eu trwyddedau presennol.

### *Tynnu dŵr wyneb mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach*

Mewn rhai dalgylchoedd lle mae dŵr yn fwy prin, rydym yn disgwyl y bydd yn anoddach cydbwyso anghenion tynwyr dŵr a'r angen i ddiogelu ein hadnoddau naturiol ehangach a'n hecosystemau. Yn y dalgylchoedd hyn – a elwir yn 'ddalgylchoedd sy'n destun amodau llymach' – bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu rheoli'r broses o dynnu dŵr yn fanylach drwy amrywiaeth o offer a nodir yn y cynigion hyn:

- Mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach byddwn yn mabwysiadu'r fframwaith cyfrifyddu a gynhwysir yn y dull Cyfrannau Dŵr ond <u>nid</u> y dyraniadau amrywiol tymor byr. Yn y dalgylchoedd hyn, bydd tynwyr dŵr yn parhau i gael cyfeintiau dŵr a ddyrennir yn flynyddol gyda therfynau dyddiol ond bydd y dyraniadau blynyddol hyn yn cael eu cysylltu â faint o ddŵr ('cyfrannau') sydd ar gael i'w dynnu mewn gwahanol rannau o'r dalgylch hwnnw. Mewn gwirionedd, mae hyn yn nodi o ble yn y dalgylch y daw dyraniadau blynyddol y tynwyr dŵr. Ni fydd y dyraniadau blynyddol a'r terfynau dyddiol yn newid, oni fydd angen eu newid yn dilyn adolygiad. Mae defnyddio'r fframwaith cyfrifyddu cyfrannau yn y dalgylchoedd hyn yn golygu ei bod yn bosibl cymeradwyo masnachau ymhlith y tynwyr dŵr ymlaen llaw. Nid yw'n effeithio ar fynediad i ddŵr o ddydd i ddydd.

- Byddwn yn mireinio amodau dim ymyrryd â'r llif mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach er mwyn i gyfyngiadau ar dynnu dŵr gynyddu'n raddol. Mae hyn yn amrywio o reolaethau cyfredol dim ymyrryd â'r llif sydd fel arfer naill ai wedi'u cymhwyso neu'u dadgymhwyso, sy'n gwneud addasu'n anodd ac nid yw'n annog effeithlonrwydd dŵr. Yn y dalgylchoedd hyn, bydd angen mesuryddion deallus ar dynwyr dŵr fel arfer er mwyn caniatáu i argaeledd dŵr a'r defnydd o ddŵr gael eu monitro'n agosach.

- Pan gaiff y system newydd ei gweithredu, byddwn yn treialu ffyrdd eraill o ddefnyddio'r fframwaith cyfrifo cyfrannau dŵr, gan gynnwys cyfnodau dyrannu byrrach amrywiol, mewn nifer fach iawn o ddalgylchoedd. Byddai canlyniad y cynlluniau peilot hyn yn pennu a fyddai'n bosibl cyflwyno newidiadau o'r fath yn ehangach.

### *Tynnu dŵr daear*

Yn gyffredinol, mae adnoddau dŵr daear yn ymateb i newidiadau yn y tywydd yn llai cyflym nag adnoddau dŵr wyneb. Mae hyn yn golygu bod y dull gweithredu arfaethedig ar gyfer y broses ddiwygio, sy'n cysylltu dyraniadau dŵr ag argaeledd dŵr, yn llai perthnasol ar gyfer dŵr daear.

Bydd y broses o dynnu dŵr daear yn parhau i gael ei rheoli drwy ddyraniadau blynyddol a fyddai'n newid yn yr hirdymor mewn ymateb i risg i'r amgylchedd yn unig. Rydym hefyd wedi egluro ein meddylfryd mewn perthynas â dŵr daear yn fanylach mewn papur briffio ar wahân [Atodiad C] a fydd yn amlinellu ein syniadau cyfredol a'n cynlluniau ar gyfer ymchwilio i ddulliau newydd o fanteisio i'r eithaf ar fynediad i ddŵr o ddyfrhaenau gwahanol. Mae hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod polisïau tynnu dŵr daear wedi'u teilwra'n well i leoliadau hydroddaearyddol pan fydd hyn yn fanteisiol i'r amgylchedd a'r tynwyr dŵr;

- Hyrwyddo'r broses o fasnachu sy'n ymwneud â thynnu dŵr daear pan fydd yn symud y pwysau o ardaloedd sensitif, er enghraifft, gwlyptiroedd a chymoedd afonydd neu ardaloedd arfordirol sydd mewn perygl o gael eu difrodi gan halen;

Mae tua 200 o achosion o dynnu dŵr daear (llai na 2% o'r cyfanswm) yng Nghymru a Lloegr sy'n cael eu cyfyngu naill ai gan amod dim ymyrryd â llif afon neu gan amod Lefel-Dim-Ymyrryd ar ddŵr daear. O dan y dull gweithredu arfaethedig, byddai'r mwyafrif o drwyddedau cyfredol sydd eisoes yn cynnwys yr amodau hyn yn dal i gynnwys yr amodau hyn wrth drosglwyddo i'r system newydd.

**Crynodeb o'r cynigion:**

- Bydd tynwyr dŵr yn derbyn cyfaint blynyddol a dyddiol a ganiateir gyda dibynadwyedd tebyg i'r sefyllfa bresennol.
- Mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llym, caiff y cyfeintiau a ganiateir hyn eu hystyried fel rhannau neu 'gyfrannau' o'r dŵr sydd ar gael mewn gwahanol rannau o'r dalgylch a chaiff unrhyw amodau dim ymyrryd â'r llif eu cymhwyso neu'u dadgymhwyso'n raddol.

## Cysylltu rheolaethau ar dynnu dŵr â llifau isel a dileu cyfyngiadau penodol ar chwistrellwyr dyfrhau

**Yr hyn a gynigiwyd gennym yn yr ymgynghoriad**

- Cyflwyno isafswm lefel reoleiddiol sy'n nodi pryd y bydd yn rhaid i bob achos o dynnu dŵr ddod i ben.

Ein nod yw cyflwyno system sy'n deg ac yn gyfartal. Mae'r dull hwn yn ymestyn rheolaethau ar dynnu dŵr yn ystod llifau isel, a dylai pob tynnwr dŵr gyfrannu at ddiogelu'r amgylchedd ar yr adegau hyn yn ein barn ni. Yn yr un modd â'r system gyfredol, bydd rhaid i dynwyr dŵr sy'n destun amodau sy'n ymwneud â llif roi'r gorau i dynnu dŵr os bydd y llifau dŵr lleol yn disgyn yn is na throthwy penodol (amodau dim ymyrryd â'r llif). Pan na fydd amodau dim ymyrryd â'r llif gan y tynwyr dŵr wyneb, caiff rheolaethau newydd eu cyflwyno. Bydd hyn yn ymestyn y cyfrifoldeb dros ddiogelu'r amgylchedd ymhlith pob tynnwr dŵr ac yn creu system sy'n decach i bawb. Bydd rheolaethau llif isel ym mhob dalgylch yn dechrau drwy annog gostyngiadau gwirfoddol gyda'r opsiwn i gynyddu cyfyngiadau gorfodol os bydd risgiau i'r amgylchedd yn bodoli o hyd.

Caiff y rheolaethau llif isel eu pennu ar lefel dalgylch er mwyn sicrhau eu bod yn briodol i amodau'r dalgylch hwnnw.

Credwn y bydd y dull hwn o ymdrin â rheolaethau pan fydd llifau'n isel yn diogelu'r amgylchedd yn well ac yn lleihau'r effeithiau ar dynwyr dŵr. Bydd hyn hefyd yn gwella ein gallu i reoli sychder a'n galluogi i roi'r gorau i osod cyfyngiadau penodol ar chwistrellwyr dyfrhau pan fydd sychder.

Mae'r dull hwn yn ystyried mewnbwn gan randdeiliaid ar ein cynnig ar gyfer isafswm lefel reoleiddiol sy'n nodi pryd y bydd yn rhaid i bob achos o dynnu dŵr ddod i ben. Yn ystod yr ymgynghoriad, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn, ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer sut y dylai weithio. Yn dilyn yr ymgynghoriad, defnyddiwyd deialog ddigidol ym mis Medi a Hydref 2014 i ymchwilio i farn ar reolaethau llif isel a'r broses o reoli sychder. Cafwyd sawl barn wahanol. Roedd rhai o'r farn y dylai cyfyngiadau pan fydd llifau yn isel fod yn berthnasol i bawb yn ddiwahân ond roedd eraill o'r farn y dylid blaenoriaethu rhai mathau o ddefnydd. Mae hyn wedi arwain at y dull gweithredu arfaethedig, sef gosod rheolaethau newydd pan fydd llifau'n isel sy'n cyfuno dulliau gweithredu teg, ond wedi'u teilwra yn ôl dalgylch, o gymhwyso cyfyngiadau a blaenoriaethu anghenion hanfodol.

**Crynodeb o'r cynigion:**

- Mae'n bosibl y bydd tynwyr dŵr wyneb ym mhob dalgylch, nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaethau sy'n seiliedig ar lif ar hyn o bryd, yn ddarostyngedig i reolaethau newydd pan fydd llifau'n isel iawn sy'n golygu y gallai fod yn ofynnol i'r holl dynwyr dŵr gyfrannu at y gwaith o ddiogelu'r amgylchedd gan ystyried costau a manteision, gydag eithriadau ar gyfer defnyddwyr hanfodol.
- Ni fydd chwistrellwyr dyfrhau penodol yn ddarostyngedig i reolaethau.

## Masnachu cyflymach a haws mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach

**Yr hyn a gynigiwyd gennym yn yr ymgynghoriad**

- Byddai'r broses fasnachu yn gyflymach ac yn haws mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach a dim ond yn bosibl ymhlith y rhai sydd â diddordeb uniongyrchol mewn tynnu dŵr.
- O dan y ddau opsiwn, byddai rhai masnachau yn cael eu cymeradwyo ymlaen llaw, er y byddai Cyfrannau Dŵr yn caniatáu i fasnachau tymor byrrach ac amrywiaeth ehangach o fasnachau gael eu cymeradwyo ymlaen llaw.

Gallai masnachu fod yn offeryn pwysig i dynwyr dŵr o ran rheoli eu hymateb i argaeledd dŵr tymor byr. Croesawyd y syniad o wneud y broses fasnachu yn gyflymach ac yn haws gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Mewn dalgylchoedd eraill, bydd y broses fasnachu yn parhau yn yr un modd ag y mae ar hyn o bryd, gyda phob cais yn cael ei asesu'n unigol, ond bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn edrych am unrhyw gyfle i symleiddio'r broses o dan y system ganiatadau newydd.

### *Dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach*

Pan fydd dŵr yn brin ac mae masnachu yn debygol o ddarparu manteision clir sy'n fwy na'r costau sydd ynghlwm wrth sefydlu'r systemau masnachu, bydd tynwyr dŵr yn gallu masnachu dŵr mewn ffordd gyflymach a haws drwy reolau masnachu a gymeradwywyd ymlaen llaw. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn gallu cymeradwyo masnachu mewn dalgylchoedd ehangach ymlaen llaw o ganlyniad i weithredu fframwaith cyfrifyddu'r opsiwn Cyfrannau Dŵr. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i dynwyr dŵr wrth fasnachu eu

mynediad i ddŵr gyda thynwyr dŵr eraill ac felly gallant reoli cyfnodau pan fydd prinder dŵr yn well. Ni fydd rhaid i dynwyr dŵr fasnachu a chaiff cyfeintiau a ganiateir eu cyhoeddi'n flynyddol o hyd, yn hytrach na rhoi dyraniadau tymor byr fel y cynigiwyd yn wreiddiol o dan yr opsiwn Cyfrannau Dŵr. Mae'r dull hwn yn gyfuniad o'r opsiynau a gynigiwyd mewn ymateb i'r gefnogaeth ar gyfer masnachu cyflymach a phryderon gan bartïon sydd â diddordeb ynghylch effaith y cynnig ar ddyraniadau dŵr tymor byr.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi'r rheolau ar gyfer cymeradwyo ymlaen llaw, o bosibl drwy fap ar-lein, er mwyn i bob tynnwr dŵr allu gweld yn hawdd pwy y gallant fasnachu â hwy, faint y gallant ei fasnachu ac o dan ba amodau (e.e. llif dim ymyrryd). Bydd tynwyr dŵr hefyd yn gallu mynegi eu diddordeb mewn masnachu. Byddwn yn annog broceriaid i ddarparu systemau masnachu effeithlon a chyflym. Ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud â broceru masnachau ond bydd yn rhaid i fasnachau gydymffurfio â'r rheolau ac adrodd yn unol â hwy.

Gofynnodd rhai ymatebwyr pam mai dim ond o dan yr opsiwn Cyfrannau Dwr yr oedd amrywiaeth fwy o fasnachau dalgylch ehangach yn bosibl. Bydd yr hyblygrwydd cynyddol i fasnachu yn bosibl oherwydd bod faint o ddŵr y mae pob tynnwr dŵr yn gallu ei gymryd yn cael ei gyfrif fel rhan ('cyfran') o gyfanswm y dŵr sydd ar gael i'w dynnu mewn gwahanol rannau o ddalgylchoedd. Gallai tynnwr dŵr tuag at waelod dalgylch feddu ar gyfrannau tuag at ran uchaf dalgylch. Yna, byddent yn gallu masnachu gyda thynnwr dŵr sydd eisiau gweithredu yn y rhan honno o'r dalgylch am fod ganddynt gyfrannau yn yr un rhan o'r dalgylch. Ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn amrywio'r cyfaint o ddŵr a ganiateir ar gyfer pob tynnwr dŵr o flwyddyn i flwyddyn oni fydd y broses adolygu yn datgelu ei bod yn angenrheidiol gwneud newidiadau. Os felly, rhoddir rhybudd rhesymol i dynwyr dŵr cyn i newid ddigwydd.

Ar ôl i'r system newydd gael ei rhoi ar waith, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a thynwyr dŵr mewn nifer fach o ddalgylchoedd i dreialu ffyrdd eraill o ddefnyddio potensial y fframwaith cyfrifyddu cyfrannau dŵr, er enghraifft cynnig cyfleoedd masnachu gan ddefnyddio cyfnodau dyrannu byrrach. Byddai canlyniad y cynlluniau peilot hyn yn pennu a ellid cyflwyno systemau o'r fath yn ehangach.

### *Datblygu a rheoleiddio'r farchnad*

Codwyd pryderon pellach yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch a oes angen inni reoleiddio er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol marchnadoedd a newidiadau i farchnadoedd. Er mwyn ymdrin â hyn, rydym wedi gweithio'n agos gydag Ofwat a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn ogystal â chynnal gweithdy gydag arbenigwyr y farchnad a rhanddeiliaid. Roedd hyn yn

cynnwys proses systematig o nodi ac asesu risgiau a chamau gweithredu lliniaru posibl a nodwyd yn yr asesiad o effaith.  Rydym hefyd wedi cynnal proses fodelu helaeth o farchnadoedd ar gyfer yr asesiad o effaith.

Yn unol â'r gefnogaeth helaeth yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym yn cynnig mai dim ond y rhai sydd â diddordeb mewn dŵr, naill ai'r rhai sydd ag angen cyfiawn i dynnu dŵr neu'r rhai sy'n berchen ar dir lle mae angen cyfiawn i dynnu dŵr, a fydd yn gallu meddu ar gyfrannau neu ddyraniadau. Caiff yr angen am ddŵr ei bennu pan wneir cais am ganiatâd i dynnu dŵr. Mae hyn er mwyn osgoi'r canlyniadau anfwriadol posibl sydd ynghlwm wrth fasnachu gan gyrff nad ydynt yn tynnu dŵr, a oedd yn destun pryder i'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Wrth ystyried tynwyr dŵr, maent yn amrywio'n fawr o ran eu math a'u maint, ac roedd rhywfaint o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn poeni y byddai tynwyr mawr, fel cwmnïau dŵr, yn tra-arglwyddiaethu ar y farchnad. O ganlyniad i'r gwahaniaeth o ran maint rhwng busnesau bach a chwmnïau dŵr yn nhermau eu galw am ddŵr, rhagwelwn y bydd y risg hon yn fach yn ôl pob tebyg. Fodd bynnag, byddwn ni ac Ofwat yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ymchwilio i sut y gellir ymdrin ag unrhyw bryderon sy'n bodoli nas cwmpesir yn ddigonol gan y gyfraith ar gyfer cystadleuaeth.  Bydd hyn yn cynnwys ystyried a allai codau ymarfer masnachu fod yn ymarferol, yn effeithiol ac yn orfodol ar gyfer y marchnadoedd tynnu dŵr ar ôl i'r broses ddiwygio gael ei rhoi ar waith. Ar ôl i'r marchnadoedd ddechrau datblygu, byddwn yn monitro eu heffeithiau yn agos er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol.  Bydd yn bosibl datblygu'r gwaith o reoleiddio marchnadoedd ymhellach a diwygio rheolau masnachu a gymeradwywyd ymlaen llaw os bydd angen.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynigion i ddiwygio'r farchnad ymhlith tynwyr dŵr fel y nodwyd yn Neddf Dŵr 2014 ar gyfer cwmnïau dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu'n llwyr neu'n bennaf yng Nghymru.

**Crynodeb o'r cynigion:**

- Bydd masnachu yn parhau i fod ar gael ym mhob dalgylch fel ag y mae ar hyn o bryd

Dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach

- Bydd tynwyr dŵr mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach yn gallu masnachu dŵr mewn ffordd gyflymach a haws drwy fasnachau a gymeradwywyd ymlaen llaw, gan gynnwys masnachu ymhlith tynwyr dŵr, sydd ond yn bosibl gyda'r rhai sydd â diddordeb uniongyrchol mewn tynnu dŵr.

# 5. Gwella'r broses o reoli dŵr mewn ffordd gynaliadwy a hirdymor gan gefnogi twf a buddsoddi

Mae'r bennod hon yn nodi sut y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r system rheoli tynnu dŵr yn cefnogi buddsoddi a thwf yn yr hirdymor er mwyn sicrhau cydnerthedd, gan ddiogelu ein hadnoddau naturiol ehangach a'n hecosystemau. Mae'n cwmpasu ein cynigion i:

- gyflwyno rheolau rheoli ar gyfer pob dalgylch;
- cyflwyno adolygiadau sy'n seiliedig ar risg a dileu trwyddedau sydd â therfynau amser;
- cyfyngu ar gyfeintiau tynnu dŵr mewn rhai achosion, yn enwedig pan fydd risg o ddirywiad;
- cyflwyno'r fframwaith cyfrifo cyfrannau dŵr mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach;
- integreiddio cyfeintiau dychwelyd dŵr i'r broses o reoli dalgylchoedd;
- adolygu'r system codi tâl.

Rydym hefyd yn egluro pam rydym wedi dileu'r cynnig ar gyfer cronfa ddŵr.

Mae pob adran yn nodi'r opsiynau a roddir yn yr ymgynghoriad, yn rhoi mwy o fanylion ar ein polisi cyfredol, gan ystyried yr ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad yn ogystal â rhagor o ymgynghori ac ymgysylltu anffurfiol gyda rhanddeiliaid, ac yn crynhoi ein cynigion.

### Cyflwyno rheolau ar reoli ar gyfer pob dalgylch er mwyn gwella'r broses o reoli dalgylchoedd

**Yr hyn a gynigiwyd gennym yn yr ymgynghoriad:**

- Roedd system o reolau ar gyfer dalgylchoedd yn rhan o'r dull System Gyfredol a Mwy a'r dull Chyfrannau Dŵr a nodwyd yn yr ymgynghoriad, fodd bynnag, ni thrafodwyd hyn yn fanwl ar y pryd.

Bydd y system newydd ar gyfer caniatadau tynnu dŵr yn cynnwys rheolau sy'n benodol ar gyfer dalgylchoedd a fydd yn cynnwys pethau fel yr amcanion amgylcheddol ar gyfer y dalgylch, y sail ar gyfer rheolaethau llif tynnu dŵr a, lle y bo'n berthnasol, rheolau sy'n nodi'r mathau o fasnachau y gellir eu cymeradwyo ymlaen llaw. Mae'r rheolau newydd hyn ar gyfer dalgylchoedd yn darparu cyfle i fabwysiadu dull mwy cyfannol o reoli adnoddau dŵr ym mhob dalgylch. Byddant yn nodi'n glir, yn amlwg ac mewn un lle, sut y caiff dalgylch ei reoli. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu'r rheolau drwy weithio gyda rhanddeiliaid ac yn ymgynghori arnynt fel rhan o'r broses o newid i'r system

newydd. Yna, cânt eu hadolygu yn ôl yr angen fel rhan o'r broses o adolygu dalgylchoedd. Byddant yn gam pwysig wrth sicrhau bod y broses o reoli tynnu dŵr yn cyd-fynd â chynlluniau Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n seiliedig ar ardaloedd.

Mae mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar ddalgylch hefyd yn caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried y broses o reoli tynnu dŵr mewn ffordd fwy cyfannol. Mae hyn yn cefnogi ein nod o wneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau naturiol er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy a diogelu ein hadnoddau naturiol ehangach a'n hecosystemau.

**Crynodeb o'r cynigion:**

- Cyflwyno rheolau ar gyfer dalgylchoedd er mwyn sefydlu proses reoli gynaliadwy ar gyfer tynnu dŵr ar sail dalgylch wrth ddalgylch

### Rhoi sicrwydd rhesymol drwy system adolygu sy'n seiliedig ar risgiau

**Yr hyn a gynigiwyd gennym yn yr ymgynghoriad**

- Byddai caniatadau tynnu dŵr mewn dalgylchoedd yn agored i broses adolygu pan fydd amodau adolygu sydd ar gael i'r cyhoedd yn cael eu cyflwyno sy'n nodi'n glir i'r tynnwr dŵr y gallai amodau caniatadau fod yn agored i'w newid.
- Byddai newidiadau yn cael eu gwneud heb dalu iawndal ond byddai rhybudd sylweddol yn cael ei roi sy'n darparu lefel o sicrwydd i'r tynnwr dŵr. Fodd bynnag, os nodir risgiau o niwed difrifol, gellid gwneud newidiadau ar unwaith.
- O dan y broses ddiwygio ni fyddai terfynau amser ar ganiatadau tynnu dŵr.

Ym mhob dalgylch, caiff y rheolau ar gyfer dalgylchoedd eu defnyddio i bennu'r dull a ddefnyddir i gyflwyno'r broses o adolygu caniatadau tynnu dŵr. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft, yn monitro pwysau ar ein hadnoddau naturiol ehangach a'n hecosystemau ac, os oes angen, yn cyflwyno adolygiad i ystyried yr angen am newidiadau i'r terfynau tynnu dŵr. Dyma ran o'n dull gweithredu i sicrhau cyfle cyfartal, oherwydd caiff pob trwydded ei hystyried ar yr un sail yn ystod yr adolygiadau. Bydd hefyd yn glir i dynwyr dŵr pan fydd achosion o dynnu dŵr yn cael eu hadolygu ai peidio, gan ddarparu system glir a sicrwydd gwell i dynwyr dŵr, a fydd yn ei thro yn gwella eu gallu i wneud penderfyniadau buddsoddi hirdymor yn seiliedig ar eu mynediad i ddŵr. Yn ogystal, bydd adolygiadau sy'n seiliedig ar risgiau yn ein

galluogi i ddileu terfynau amser ar drwyddedau, gan wella sicrwydd ymhellach i dynwyr dŵr sy'n meddu ar drwyddedau o'r fath ar hyn o bryd.

Dangosodd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad gefnogaeth eang tuag at y cynigion i sicrhau dull mwy cyson wrth wneud newidiadau i amodau tynnu dŵr, gan ddadlau y byddai hyn yn rhoi hyder wrth ystyried buddsoddiad hirdymor ac y byddai'r cynigion yn darparu system decach na'r un sydd ar waith ar hyn o bryd. Gwnaeth nifer o ymatebwyr awgrymiadau ar gyfer y broses a fyddai'n pennu newidiadau i amodau tynnu dŵr trwyddedau unigol, ac rydym wedi bod yn ystyried hyn, er enghraifft, pa gyfnodau o rybudd a fyddai'n sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng anghenion tynwyr dŵr a'r amgylchedd. Caiff y rhain eu hystyried ymhellach fel rhan o'r broses o ddatblygu'r system newydd.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion i ddileu taliadau iawndal ar gyfer newidiadau a wneir i amodau tynnu dŵr a dileu'n raddol y broses o gasglu Tâl Uned Gwella'r Amgylchedd (EIUC). Mae casglu arian i dalu iawndal yn arafu'r broses o newid trwyddedau, gan gynyddu'r risg i'r amgylchedd ac ymestyn y cyfnod o ansicrwydd i fusnesau. Yn ogystal, os bydd tynwyr dŵr unigol yn derbyn iawndal, nid oes llawer o gymhelliant iddynt gymryd camau i reoli eu risgiau mewn ffordd ragweithiol er mwyn atal pwysau cynyddol ar argaeledd dŵr neu wella effeithlonrwydd.

### *Egwyddorion ar gyfer adolygu caniatadau*

Yn seiliedig ar adborth gan randdeiliaid a'n syniadau pellach o ran polisi, rydym wedi datblygu egwyddorion a fydd yn sail i'r system adolygiadau yn y system newydd ar gyfer tynnu dŵr ac yn gwella sicrwydd i dynwyr dŵr:

- Caiff terfynau amser eu dileu a bydd y broses o newid amodau tynnu dŵr yn berthnasol i bob tynnwr dŵr[7]. Caiff terfynau amser eu dileu oddi ar drwyddedau tynwyr dŵr pan fyddant yn newid i'r system newydd;
- Gellid cyflwyno adolygiadau o ddalgylchoedd ar unrhyw adeg:
    - Os cafodd dangosyddion risg amgylcheddol, a nodir mewn rheolau tynnu dŵr dalgylchoedd (naill ai hydrolegol neu ecolegol), eu sbarduno neu os oedd y broses o dynnu dŵr yn achosi niwed difrifol i'r amgylchedd;
    - Os bydd ein dealltwriaeth o ofynion amgylcheddol neu'r ddeddfwriaeth sy'n sail i ofynion amgylcheddol yn newid; neu

[7] Noder, rydym yn cydnabod y bydd angen rhywfaint o ganiatadau sydd â therfynau amser o hyd. Gallai'r rhain gynnwys achosion o dynnu dŵr dros dro, er enghraifft ar gyfer adeiladu, neu newidiadau dros dro i drwyddedau mewn ymateb i risgiau amgylcheddol pan fydd angen monitro er mwyn mesur effeithiolrwydd y newid a gwneud newidiadau pellach o bosibl os na fydd yn effeithiol.

- Os bydd monitro yn awgrymu bod yr amodau tynnu dŵr yn rhy gyfyngol ac y gellid dyrannu mwy gan ddiogelu'r amgylchedd[8].

- Byddai'r adolygiad yn dechrau gydag ymchwiliad a fyddai'n cymryd uchafswm o chwe blynedd i'w gwblhau. Os bydd angen gwneud newidiadau gorfodol sylweddol i amodau tynnu dŵr, byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi rhybudd o newidiadau (o leiaf 3 blynedd), oni bai bod amgylchiadau eithriadol, er enghraifft pan fydd y broses o dynnu dŵr yn achosi niwed difrifol;

- Bydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru y pŵer i addasu'r holl elfennau amrywiol sy'n rhan o'r caniatadau tynnu dŵr, er enghraifft, terfynau cyfaint, amodau pan na ellir ymyrryd â'r llif ac amodau sy'n benodol i safleoedd a bydd yn penderfynu, yn dilyn proses o ymgysylltu â rhanddeiliaid, ar ddull teg o ddefnyddio'r pwerau hyn i ymdrin ag unrhyw faterion o ran rheoli adnoddau, fel y risgiau amgylcheddol a nodwyd, gan sicrhau'r effaith leiaf posibl ar dynwyr dŵr;

- Bydd proses apelio ar gyfer tynwyr dŵr sy'n wynebu newidiadau fel rhan o'r broses adolygu. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud i ystyried y ffordd orau o reoli apeliadau yn y system newydd. Rydym yn disgwyl i'r broses fod yn debyg i'r dull apelio sy'n bodoli eisoes.

- Ni thelir iawndal ar gyfer newidiadau i ganiatadau tynnu dŵr a chaiff y Tâl Uned Gwella'r Amgylchedd (EIUC) ei ddileu'n raddol;

- Bydd yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru nodi ac ymgynghori ar ei bolisi ar gyfer arfer ei ddyletswyddau a'i bwerau o dan y system adolygu newydd.

**Crynodeb o'r cynigion:**

- Bydd yr holl ganiatadau tynnu dŵr o bosibl yn agored i'w hadolygu yn seiliedig ar set o reolau rheoli sy'n ymwneud yn benodol â dalgylchoedd ac sydd ar gael i'r cyhoedd.
- Caiff terfynau amser eu dileu a chaiff pob caniatâd ei drin yn yr un modd o dan y dull adolygu sy'n seiliedig ar risg.
- Ni thelir iawndal am newidiadau i ganiatadau tynnu dŵr, ond bydd cyfathrebu clir pan fydd risg o wneud newidiadau i ganiatadau a chyfnod rhesymol o rybudd.
- Caiff cyfraniadau i EIUC eu dileu'n raddol

[8] Er enghraifft, os byddai gwelliannau hydro-morffolegol yn golygu y gellid tynnu mwy o ddŵr o bosibl a chyrraedd yr un safonau amgylcheddol

## Cyfyngu ar rai cyfeintiau tynnu dŵr a ganiateir wrth drosglwyddo i'r system newydd

**Yr hyn a gynigiwyd gennym yn yr ymgynghoriad**

- Lleihau terfynau tynnu dŵr wrth drosglwyddo i'r system newydd drwy ddileu mynediad i rai ffynonellau dŵr nas defnyddir ar hyn o bryd.

Yn ystod y broses o drosglwyddo o'r system drwyddedu bresennol i'r gyfundrefn drwyddedu newydd, bydd Cymru yn canolbwyntio ar wneud newidiadau i drwyddedau a fydd yn galluogi adnoddau dŵr i gael eu rheoli'n effeithiol ym mhob dalgylch. Felly bydd y caniatadau tynnu dŵr newydd yn seiliedig ar angen rhesymol, mewn perthynas â'r cyfeintiau dyddiol a blynyddol a drwyddedir a defnydd effeithlon o ddŵr, yn ogystal â chynaliadwyedd amgylcheddol.

Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig adolygu'r holl drwyddedau sy'n bodoli eisoes. Er enghraifft, pan fydd cyfeintiau a drwyddedir yn uwch na gofynion y tynwyr dŵr, caiff y cyfeintiau trwyddedig nas defnyddir (a elwir hefyd yn 'ddŵr papur') eu dileu, naill ai er mwyn diogelu'r amgylchedd neu er mwyn rhyddhau adnoddau ar gyfer defnyddwyr eraill.

Pan drosglwyddir i'r system newydd, byddwn yn sicrhau bod pob tynnwr dŵr a busnes yn derbyn cyfeintiau a ganiateir sy'n adlewyrchu defnydd cyfredol y busnes a/neu, yn achos cwmnïau dŵr, yn bodloni eu rhwymedigaethau o ran sicrwydd cyflenwad. Bydd hyn yn lleihau'r risg o dynnu dŵr mewn ffordd anghynaliadwy ac yn darparu darlun mwy realistig o argaeledd adnoddau dŵr mewn dalgylch. Er y caiff pob trwydded ei hadolygu, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn mai ychydig o addasu yn unig fydd ei angen ar y mwyafrif o drwyddedau yng Nghymru. Er enghraifft, nid yw mathau o ddefnydd nad ydynt yn ddarfodadwy, er enghraifft trwyddedau ynni dŵr neu drwyddedau storio cronfeydd, yn debygol o newid, heblaw'r newidiadau hynny sydd ynghlwm wrth drosglwyddo i'r system newydd.

Drwy adolygu pob trwydded, bydd tynwyr dŵr presennol, tynwyr dŵr y dyfodol ac eraill sydd â diddordeb yn yr amgylchedd dŵr yn gweld darlun clir o ble y mae adnoddau dŵr ar gael er mwyn cefnogi twf yn y dyfodol, gan sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau i gael ei ddiogelu. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â pholisi Rheoli Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru a'r Strategaeth Ddŵr i Gymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n hyrwyddo defnydd priodol o adnoddau dŵr. Mae hefyd yn cefnogi'r broses o gyflawni'r nodau yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Er bod hyn yn cynrychioli'r dull a ffefrir ar gyfer trosglwyddo i'r broses newydd, byddwn yn parhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau terfynol yn seiliedig ar ddealltwriaeth well o'r goblygiadau o ran adnoddau a chostau, gan gynnwys unrhyw oblygiadau ar gyfer codi tâl.

Cafwyd cefnogaeth i'r cynnig hwn yn ystod yr ymgynghoriad oherwydd roedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod gwerth yr amgylchedd. Bydd y camau cyfredol a gaiff eu cymryd gan Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn ymdrin â thynnu dŵr mewn ffordd anghynaliadwy yn parhau a dylid eu cwblhau cyn i'r system newydd gael ei gweithredu. Byddwn yn defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg er mwyn dileu cyfeintiau nas defnyddir gan ystyried achosion gwirioneddol o dynnu dŵr. Rydym eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn amharu cyn lleied â phosibl ar dynwyr dŵr a'r cyflenwadau dŵr, gan sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau naturiol ar yr un pryd a rheoli'r risg o niweidio'r amgylchedd yn y dyfodol.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu talu iawndal i dynwyr dŵr unigol am unrhyw golledion yr eir iddynt wrth newid i'r system newydd.

**Crynodeb o'r cynigion:**

- Adolygu'r cyfeintiau tynnu dŵr a ganiateir pan drosglwyddir i'r system newydd.

## Defnyddio'r fframwaith cyfrifyddu cyfrannau dŵr er mwyn cynyddu hyblygrwydd mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach

**Yr hyn a gynigiwyd gennym yn yr ymgynghoriad**

Cyfrannau Dŵr:

- Mae'r holl dynwyr dŵr yn derbyn 'cyfrannau' yn y ffynonellau dŵr sydd ar gael mewn gwahanol rannau o ddalgylch sy'n llywio dyraniadau tymor byr amrywiol er mwyn hwyluso mwy o fasnachu.

Mae'r fframwaith cyfrifyddu cyfrannau yn offeryn newydd posibl pwysig ar gyfer rheoli adnoddau dŵr yn yr hirdymor. Mae'r offeryn hwn eisoes wedi cael ei weithredu yn Awstralia ac mae wedi arwain y broses o ddiwygio yn rhyngwladol. Gall cyfrannau dŵr ganiatáu i dynwyr dŵr gael darlun gwell o'r risgiau a'r cyfleoedd sydd ynghlwm wrth eu mynediad i ddŵr, am eu bod yn

llai tebygol o gael eu newid na therfynau cyfeintiol. Bydd masnachu hefyd yn haws mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach am fod masnachau dalgylchoedd ehangach a gymeradwywyd ymlaen llaw yn bosibl gyda'r fframwaith cyfrifo cyfrannau a chredwn y bydd marchnad fasnachu weithgar yn annog pobl i fasnachu dŵr gyda'r rhai sydd ei angen er mwyn tyfu.

Gallwn o bosibl ddefnyddio fframwaith cyfrannau yn y dyfodol i gefnogi proses fwy soffistigedig o reoli adnoddau dŵr gyda chyfnodau dyrannu byr sy'n galluogi masnachu 'rhoi a chymryd' hyblyg oddi wrth adnoddau dŵr a rennir[9]. Ar hyn o bryd, nid oes angen taer i wneud hyn yng Nghymru. Fodd bynnag, yn sgil y newid yn yr hinsawdd a'r galw cynyddol am ddŵr, gallai'r fframwaith cyfrannau wella cydnerthedd ein hadnoddau dŵr yn sylweddol a helpu i danseilio twf yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod bod hyn yn codi materion cymhleth, fel yr amlygwyd yn yr ymgynghoriad. Felly, byddwn yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a fydd yn treialu'r dulliau newydd hyn mewn nifer fach iawn o ddalgylchoedd er mwyn deall sut y gellid cymhwyso hyn yng Nghymru.

**Crynodeb o'r cynigion:**

- Mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach, caiff faint o ddŵr y mae gan dynwyr dŵr yr hawl i'w gymryd ei gyfrif fel rhannau ('cyfrannau') o'r dŵr sydd ar gael i'w dynnu mewn gwahanol rannau o ddalgylch

**Integreiddio cyfeintiau gollyngiadau dŵr i'r broses o reoli dalgylchoedd**

***Gollyngiadau yn agos i'r man lle caiff dŵr ei dynnu***

Y dull arfaethedig yw gofyn i bob tynnwr dŵr sy'n gollwng dŵr yn agos i'r man lle maent yn ei gymryd i barhau i ollwng cyfran o'r dŵr y maent yn ei gymryd. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o barhau i ddarparu dŵr dibynadwy i'r rhai sydd is i lawr yr afon. Byddwn yn gwneud hyn drwy osod amodau penodol ar drwyddedau sy'n mynnu bod rhaid parhau i ddychwelyd cyfran o'r dŵr a gaiff ei dynnu[10]. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r dull hwn. Felly, daethom i'r casgliad fod hwn yn ddull priodol o reoli gollyngiadau o'r fath.

Wrth gwrs, bydd angen i ollyngiadau gael eu gwneud yn unol â'r system caniatadau amgylcheddol o hyd er mwyn sicrhau safonau parhaus o ran ansawdd dŵr. Gall tynwyr dŵr wneud cais i newid y gyfran a ollyngir ganddynt

---

[9] Pan gaiff dŵr ei ryddhau o gronfeydd, caiff cynlluniau ailddefnyddio a dŵr daear sydd wedi'i dynnu eu rhyddhau i afonydd er mwyn masnachu ag eraill.

[10] Mae gan nifer fach o drwyddedau tynnu dŵr ar gyfer ffermydd pysgod amodau o'r fath ar hyn o bryd

a gallent hefyd fasnachu er mwyn cynyddu neu leihau'r cyfaint net y maent yn ei dynnu, yn enwedig mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach. Fodd bynnag, ni fydd y polisi hwn yn gofyn i unrhyw dynwyr dŵr nad ydynt yn gollwng dŵr ar hyn o bryd i ddechrau gwneud hynny. Gan mai'r gofyniad yw gollwng cyfran o'r dŵr a gymerwyd, os byddai tynnwr dŵr yn penderfynu rhoi'r gorau i dynnu dŵr, ni fyddai'n rhaid iddynt barhau i ollwng dŵr.

### *Gollwng dŵr ymhell iawn o'r man lle y caiff dŵr ei dynnu*

Roedd y cwmnïau dŵr ac ymatebwyr eraill i'r ymgynghoriad yn cytuno y dylai'r system ddiwygiedig gydnabod gwerth dŵr gwastraff a ollyngir ymhell iawn o'r man lle y caiff y dŵr ei dynnu. Yn ogystal, amlygwyd bod angen gwneud gwaith pellach i ddatblygu dull o weithredu hyn.

Nododd ein hymchwil fod gollwng dŵr yn y ffordd hon yn ymwneud yn bennaf â chwmnïau dŵr. Wrth ddatblygu dull gweithredu, cynhaliwyd ymgynghoriad pellach a gwaith casglu tystiolaeth. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau â chwmnïau dŵr a'r rhai a allai fod yn ddibynnol ar ollwng dŵr drwy gyfrwng cyfarfodydd a fforwm trafod ar-lein, a datblygwyd pedair astudiaeth achos wirioneddol o newidiadau posibl i'r broses ddychwelyd yn y dyfodol.

Daethom i'r casgliad fod angen ateb cymesur arnom sydd hefyd yn manteisio i'r eithaf ar fuddiannau net gollyngiadau. Yr opsiwn a ffefrir gennym yw gofyn i gwmnïau dŵr asesu'r effaith y byddai newid sylweddol o ran faint o ddŵr a gaiff ei ollwng yn ei chael ar lif yr afon, ac unrhyw effaith ar dynwyr dŵr a'r amgylchedd[11]. Lle y ceir effaith, dylid cytuno ar ffordd o reoli'r broses o ollwng dŵr gyda Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn lleihau'r effaith. Mae hyn yn:

- darparu ffordd gyfannol o reoli gollyngiadau a'r effaith ar gwrs dŵr, tynwyr dŵr a'r amgylchedd;
- lleihau costau drwy ddull fesul cam sy'n gofyn am gamau gweithredu lliniarol os bydd effaith yn bodoli yn unig;
- caniatáu i gwmnïau dŵr newid gollyngiadau, a diogelu tynwyr dŵr a'r amgylchedd ar yr un pryd;
- sicrhau canlyniad teg a chymesur i bawb; a
- cyd-fynd â rheolaethau caniatadau amgylcheddol presennol sy'n ymwneud â gollyngiadau.

Mae buddiannau net yr opsiwn hwn dros gyfnod arfarnu o 30 mlynedd hefyd yn fwy na'r opsiynau eraill a ystyriwyd gennym (£2.7 miliwn). Mae hyn am ei fod yn caniatáu i werth yr achosion gollyngiadau gael eu gwireddu gan gadw'r costau mor isel â phosibl wrth wneud hynny.

---

[11] Byddai eithriad i'r asesiad pan fyddai gofyniad amgylcheddol cyfreithiol i leihau'r dŵr a gaiff ei ollwng er mwyn amddiffyn ecosystemau. Er enghraifft, pan allai gollwng dŵr achosi i lefel llif naturiol afon fynd yn rhy uchel, gan effeithio ar ecosystem ddŵr sy'n gweithredu'n well pan fydd llifau naturiol.

Ceir esboniad manylach o’r gwaith hwn yn yr Asesiad o Effaith ar ollygiadau gan gwmnïau dŵr.

**Crynodeb o’r cynigion:**

- Ei gwneud yn ofynnol i’r holl dynwyr dŵr sy’n gollwng dŵr yn agos i’r man lle y maent yn ei gymryd barhau i ollwng cyfran o’r dŵr y maent yn ei gymryd. Ni fydd rhaid i’r rhai nad ydynt yn gollwng dŵr ar hyn o bryd ddechrau gwneud hynny.
- Ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr sy’n gollwng dŵr i afonydd asesu effaith newidiadau i ollyngiadau ar yr afon, ac felly’r effaith ar y tynnwr dŵr a’r amgylchedd, a chytuno ar ffordd o leihau unrhyw effaith bosibl.

## Adolygu’r system codi tâl

**Yr hyn a gynigiwyd gennym yn yr ymgynghoriad**

- Newid taliadau tynnu dŵr i gynnwys elfen sy’n seiliedig ar y dŵr a gaiff ei dynnu (ymestyn y tariff dwy-ran);
- Codi mwy o dâl am fynediad dibynadwy i ddŵr nag am fynediad llai dibynadwy o dan ddull graddedig.

Nod y cynnig, sef sicrhau cysylltiad agosach rhwng taliadau a’r dŵr a gaiff ei dynnu, oedd annog effeithlonrwydd dŵr. Roedd llawer o’r ymatebwyr i’r ymgynghoriad o blaid yr egwyddor hon ond nid oeddent eisiau i’w biliau godi. Amlygodd yr ymatebion i’r ymgynghoriad yr angen am ragor o waith ar y cynigion codi tâl ac awgrymwyd y byddai angen ymgynghoriad pellach er mwyn datblygu cyfres o ddiwygiadau a fyddai’n cyd-fynd â’i gilydd a chyflawni’r egwyddorion a nodwyd isod.

Gan ystyried adborth o’r ymgynghoriad ac ymgysylltu pellach, rydym wedi bod yn ymchwilio ac yn cwmpasu cynllun newydd o daliadau ar gyfer tynnu dŵr er mwyn gallu parhau i godi tâl am dynnu a chronni dŵr ar sail adennill costau. Mae modelu a dadansoddi yn awgrymu bod amrywiaeth o faterion eraill y mae angen eu hystyried hefyd wrth ddiwygio’r system codi tâl. Ymhlith y rhain mae adolygu ffactorau colled a chodi tâl amrywiol ar gyfer dalgylchoedd sy’n destun amodau llymach.  Mae hyn oll yn gofyn am ragor o waith y bydd

Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain ac yn ymgynghori arno, fel y bo'n briodol. Y nod yw creu dull sy'n:

- syml ac yn ddealladwy i dynwyr dŵr;
- darparu rhywfaint o barhad mewn perthynas â'r taliadau a delir o dan y system gyfredol;
- rhagweladwy ar gyfer cwsmeriaid; ac sy'n
- adennill costau Cyfoeth Naturiol Cymru sydd ynghlwm wrth reoli adnoddau dŵr.

Bydd gwaith pellach yn canolbwyntio'n benodol ar:

- y dull cyfredol o addasu taliadau yn seiliedig ar dymhorau a fydd yn symud tuag at addasu taliadau yn seiliedig ar ddibynadwyedd;
- y ffactorau colled safonol sy'n cynrychioli darfodadwyaeth;
- y posibilrwydd o greu cysylltiad agosach rhwng codi tâl a'r defnydd o ddŵr;
- y sail ar gyfer codi tâl ar gyfer ffynonellau cymorth;
- codi tâl amrywiol ar gyfer dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach;
- ailgyfrifo taliadau uned er mwyn sicrhau y caiff costau eu hadennill o drwyddedau sydd wedi trosglwyddo i'r system newydd.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau i'r system gyfredol.

**Crynodeb o'r cynigion:**

- Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu ac yn ymgynghori ar system codi tâl newydd ar gyfer caniatadau tynnu dŵr.
- Bydd y cynllun taliadau yn syml, yn rhagweladwy ac yn darparu rhywfaint o barhad mewn perthynas â'r taliadau cyfredol ac adennill costau'r rheoleiddiwr.

## Penderfyniad i beidio â datblygu'r cynnig ar gyfer cronfa ddŵr

**Yr hyn a gynigiwyd gennym yn yr ymgynghoriad**

- Y posibilrwydd o greu cronfa ddŵr a gynhelir gan y rheoleiddiwr y gellid ei dyrannu i dynwyr dŵr newydd neu rai sy'n ehangu o fewn dalgylch.

Yn seiliedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac ystyriaeth bellach, rydym wedi penderfynu peidio â mynd ar drywydd y cynnig i greu cronfa ddŵr

benodol. Y prif reswm dros y cynnig hwn oedd darparu dŵr i gefnogi tynwyr dŵr presennol sy'n dymuno tyfu a darparu mynediad i gyrff newydd sy'n dymuno tynnu dŵr. Yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad nododd llawer o'r tynwyr dŵr presennol eu bod yn gwrthwynebu'r cynnig i ddarparu cronfa ddŵr oherwydd eu bod yn teimlo y gallant reoli'r galw am ddŵr neu fasnachu er mwyn bodloni eu gofynion twf. Bydd y rhan fwyaf o gyrff newydd sy'n tynnu dŵr yn gallu cael mynediad i ddŵr mewn ardaloedd lle mae dŵr ar gael a chael mynediad o hyd i'r marchnadoedd y maent yn bwriadu masnachu â hwy.

**Crynodeb o'r cynigion:**

- Ni fydd cronfa ddŵr benodol yn cael ei chreu

# 6. Trosglwyddo i'r system ddiwygiedig

Mae sut y byddwn yn symud (trosglwyddo) trwyddedau tynnu dŵr i'r system ddiwygiedig yn rhan allweddol o'r broses ddiwygio. Wrth drosglwyddo o'r system drwyddedu bresennol i'r gyfundrefn ganiatadau newydd, bydd Cymru yn canolbwyntio ar wneud newidiadau i drwyddedau a fydd yn galluogi adnoddau dŵr i gael eu rheoli'n effeithlon ym mhob dalgylch. Caiff yr holl drwyddedau tynnu dŵr eu cynnwys yn y broses o drosglwyddo i'r system newydd o ganiatadau tynnu dŵr. Rydym eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn amharu cyn lleied â phosibl ar dynwyr dŵr a'r cyflenwadau dŵr, gan sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r broses drosglwyddo ei hun drwy helpu i ymdrin â rhai materion hanesyddol, er enghraifft, dileu cyfeintiau dŵr a drwyddedir ond nas defnyddir.

Drwy adolygu pob trwydded, bydd tynwyr dŵr presennol, tynwyr dŵr y dyfodol ac eraill sydd â diddordeb yn yr amgylchedd dŵr yn gweld darlun clir o ble y mae adnoddau dŵr ar gael er mwyn cefnogi twf yn y dyfodol, gan sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau i gael ei ddiogelu. Pan drosglwyddir i'r system newydd, byddwn yn sicrhau bod pob busnes yn derbyn cyfeintiau a ganiateir sy'n adlewyrchu defnydd cyfredol y busnes a/neu, yn achos cwmnïau dŵr, yn bodloni eu rhwymedigaethau o ran sicrwydd cyflenwad. Bydd hyn yn lleihau'r risg o dynnu dŵr mewn ffordd anghynaliadwy ac yn darparu darlun mwy realistig o'r dŵr sydd ar gael i fusnesau mewn gwirionedd, sy'n gwella'u gallu i gynllunio. Er y caiff pob trwydded ei hadolygu, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn mai ychydig o addasu yn unig y bydd ei angen ar y mwyafrif o drwyddedau yng Nghymru.

Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â pholisi Rheoli Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru a'r Strategaeth Ddŵr i Gymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n hyrwyddo defnydd priodol o adnoddau dŵr. Mae hefyd yn cefnogi'r broses o gyflawni'r nodau yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Er mai dyma'r dull a ffefrir ar hyn o bryd, byddwn yn parhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill er mwyn sicrhau bod y broses drosglwyddo yn y pen draw yn cael ei llywio gan ddealltwriaeth well o'r goblygiadau o ran adnoddau a chostau, gan gynnwys unrhyw oblygiadau ar gyfer codi tâl.

Mae'r adran hon yn nodi fframwaith cenedlaethol cyffredin ar gyfer ein dull trosglwyddo yn seiliedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rhagor o ymgysylltu â rhanddeiliaid a rhagor o waith o ran datblygu polisi. Ers yr ymgynghoriad rydym wedi:

- ymchwilio i'r effaith y byddai dulliau trosglwyddo gwahanol yn ei chael ar amrywiaeth o achosion unigol o dynnu dŵr;
- ymgysylltu ag amrywiaeth o dynwyr dŵr (gan gynnwys y rhai â galw parhaus, defnydd amrywiol, cynhyrchwyr ynni a chwmnïau dŵr) er

mwyn treialu dulliau posibl o drosglwyddo i'r system newydd ac er mwyn rhoi mewnbwn i'r gwaith o ddatblygu proses apelio;

- gweithio gydag UKWIR a chwmnïau dŵr i ymchwilio i sut y gellid dylunio'r broses o drosglwyddo cwmnïau dŵr i'r system newydd.

## Ystyriaethau wrth drosglwyddo i'r system newydd

**Yr hyn a gynigiwyd gennym yn yr ymgynghoriad**

- Sawl opsiwn ar gyfer ymdrin â chyfeintiau nas defnyddir er mwyn atal y risg o ddirywiad, gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol yn gyffredinol i'r holl dynwyr dŵr a'r rhai sy'n mabwysiadu dull sy'n fwy seiliedig ar risg.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg wrth adolygu cyfeintiau trwyddedig pan drosglwyddir i'r system newydd. Er enghraifft, efallai na fydd angen iddo adolygu cyfeintiau presennol ar gyfer trwyddedau sydd:

- yn cynnwys rheolaethau dim ymyrryd â'r llif sydd eisoes yn atal risg o ddirywio;

- at ddibenion nad ydynt yn ddarfodadwy ac eisoes yn cynnwys amodau i reoli risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw ddyfroedd sydd wedi disbyddu;

- ar gyfer tynnu dŵr yn ystod llifau uchel, er enghraifft llenwi cronfeydd dŵr. Fel arfer mae'r rhain yn cyfyngu ar fynediad pan fydd mwy o ddŵr ar gael. Byddai lleihau eu cyfeintiau trwyddedig o bosibl yn arwain at fethu ag ail-lenwi eu cronfa storio os byddai'n cael ei gwacáu yn ystod blwyddyn sych.

- wedi cael eu hasesu'n ddiweddar fel rhai nad ydynt yn debygol o achosi risg o ddirywio cyn trosglwyddo i'r system newydd, er enghraifft rhai a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r system drwy'r broses Awdurdodiadau Newydd, adnewyddiadau sydd â Therfyn Amser neu o ganlyniad i newidiadau i drwyddedau a wnaed fel rhan o'r rhaglen Adfer Dulliau Tynnu Dŵr Cynaliadwy.

**Crynodeb o'r cynigion:**

- Caiff dull sy'n seiliedig ar risg ei ddefnyddio ar gyfer asesu trwyddedau wrth drosglwyddo i'r system newydd
- Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu pob trwydded pan drosglwyddir i'r system newydd gyda'r nod o annog defnydd effeithlon, lleihau cyfeintiau i gyd-fynd â defnydd gwirioneddol yn hytrach na defnydd trwyddedig a diogelu'r amgylchedd

## Dulliau ar gyfer cyfrifo cyfeintiau i'w symud i'r system newydd

**Yr hyn a gynigiwyd gennym yn yr ymgynghoriad**

- Amrywiaeth o opsiynau ar gyfer cyfrifo cyfeintiau yn seiliedig ar lefelau cyfartalog tynnu dŵr neu'r lefelau uchaf, gyda sawl opsiwn ar gyfer y cyfnod er mwyn asesu cyfeintiau nas defnyddir

Wrth gyfrifo cyfeintiau yn y system newydd ar gyfer y rhan fwyaf o dynwyr dŵr, ein dull arfaethedig yw defnyddio fformiwla sy'n canolbwyntio ar faint o ddŵr a gaiff ei dynnu yn ystod adegau prysur dros gyfnod hanesyddol penodol sy'n cynnwys cyfnodau sych. Bydd hyn yn adlewyrchu anghenion tynwyr dŵr, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd â gofynion amrywiol iawn, ac yn lleihau'r risgiau i'r amgylchedd yn sylweddol. Ar gyfer cwmnïau dŵr, rydym yn bwriadu mabwysiadu dull sydd ychydig yn wahanol o gofio'u rhwymedigaethau o ran sicrwydd cyflenwi. Er enghraifft, bydd rhaid iddynt gyfiawnhau eu hangen am y cyfeintiau hynny yn unigol ar sail eu rhwymedigaethau cyfreithiol, eu gofynion mewn argyfwng a/neu eu patrymau defnydd hanesyddol. Os bydd angen cyfaint trwyddedig at ddibenion argyfwng, dim ond at y dibenion hynny y bydd ar gael.

Mae hyn yn cefnogi ein meini prawf ar gyfer dull priodol, sef:

- amharu cyn lleied â phosibl ar dynwyr dŵr, gan ystyried y rhai sydd â phatrymau defnydd amrywiol yn benodol;
- rheoli adnoddau dŵr yn fwy effeithiol drwy:
    - sicrhau bod trwyddedau tynnu dŵr yn seiliedig ar angen rhesymol ac nad ydynt yn 'cloi' dŵr yn ddiangen;
    - hyrwyddo defnydd effeithlon o ddŵr;
    - lleihau'r risg o ddirywio.
- cydnabod rhwymedigaethau cyfreithiol cwmnïau dŵr;
- sicrhau bod y dull yn ymarferol i'w weithredu.

Mae'r dull hwn yn seiliedig ar adborth o'r ymgynghoriad sy'n nodi y gallai mesur 'cyfartaledd' y dŵr a gaiff ei dynnu dros gyfnod hanesyddol er mwyn asesu defnydd gwirioneddol achosi problemau i rai tynwyr dŵr. Yn arbennig, gellid cael effaith ar y cyrff sydd â phatrymau tynnu dŵr amrywiol iawn o un flwyddyn i'r llall neu gwmnïau dŵr sydd â rhwymedigaethau cyfreithiol o ran sicrwydd cyflenwad. Am y rheswm hwn, ymchwiliwyd i fethodolegau amgen. Efallai na fydd y dull hwn yn cael gwared yn llwyr ar y risgiau o ddirywio. Fodd

bynnag, os bydd rhai yn bodoli, ymdrinnir â'r rhain drwy adolygiadau sy'n seiliedig ar risg lle y bydd ymchwiliad pellach yn bosibl a lle y gellir ystyried mwy o dystiolaeth.

Bydd y cyfnod asesu hanesyddol a ddefnyddiwn ar gyfer cyfrifo faint o ddŵr a gaiff ei dynnu mewn gwirionedd hefyd yn effeithio ar y cyfaint trwyddedig y bydd tynwyr dŵr yn ei gael yn y system newydd. Rydym eisiau sicrhau bod y dewis terfynol yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- Yn cyd-fynd â chofnodion cryf ar gyfer tynnu dŵr a gedwir gan Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Yn ddigon hir i ystyried amrywiadau arferol, er enghraifft cylchdroi cnydau;
- Yn cynnwys cyfnodau sych iawn.

Er mwyn bodloni'r meini prawf hyn, ein nod yw pennu cyfnod asesu sy'n para o leiaf 10 mlynedd, lle bydd data cadarn ar gael. O dan rai amgylchiadau, er enghraifft trwyddedau a gyhoeddir yn fwy diweddar, byddai'n rhaid ystyried cyfnodau amser gwahanol.

**Crynodeb o'r cynigion:**

- Ar gyfer y rhan fwyaf o dynwyr dŵr, bydd cyfrifiadau o'r cyfeintiau newydd a ganiateir yn seiliedig ar fformiwla sy'n defnyddio faint o ddŵr a gaiff ei dynnu mewn gwirionedd ar adegau prysur dros gyfnod hanesyddol cynrychioliadol.
- Bydd rhaid i gwmnïau dŵr gyfiawnhau cyfeintiau caniatadau newydd yn seiliedig ar eu rhwymedigaethau o ran sicrwydd cyflenwad, eu gofynion mewn argyfwng a/neu eu patrymau defnydd hanesyddol

## Safoni lefelau dibynadwyedd caniatadau

Byddwn hefyd yn rhoi caniatadau sydd â dibynadwyedd tebyg i drwyddedau cyfredol i dynwyr dŵr[12]. Mae amodau ar rai trwyddedau tynnu dŵr sy'n ei gwneud yn ofynnol i dynwyr dŵr leihau neu roi'r gorau i dynnu dŵr, a adwaenir yn gyffredin fel 'amodau dim ymyrryd â'r llif'. Mae llawer o lefelau

[12] Efallai y bydd rhai cyrff sy'n tynnu dŵr, drwy drafodaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru, yn dewis cymryd rhywfaint o ddŵr sydd â dibynadwyedd is.

gwahanol ar gyfer gosod y lefel dim ymyrryd â'r llif. Rydym yn bwriadu safoni amodau penodol ar drwyddedau ar draws dalgylchoedd.

Bydd amodau wedi'u safoni yn hwyluso gallu cwmnïau masnachu a Cyfoeth Naturiol Cymru i reoli dŵr ar draws y dalgylch pan drosglwyddir i'r system newydd, heb newid yn sylweddol ddibynadwyedd mynediad i ddŵr ar gyfer y tynwyr dŵr. Er enghraifft, o dan y system gyfredol gallai trwyddedau yn yr un ardal fod ag amodau dim ymyrryd â'r llif sy'n debyg ond ychydig yn wahanol. Lle y bo'n briodol, byddai'r rhain yn cael eu cysoni o fewn un trothwy. Bydd hyn yn ein galluogi i gyhoeddi cyfaint newydd gyda lefel debyg o ddibynadwyedd i'r trwyddedau cyfredol.

**Crynodeb o'r cynigion:**

- Caiff lefelau llif dim ymyrryd eu cysoni ar draws y system, gyda thrwyddedau newydd yn cael dibynadwyedd tebyg i drwyddedau cyfredol.

## Newid i system newydd o ganiatadau a rheolau safonol

Un o'r newidiadau allweddol yn y broses ddiwygio fydd newid o'r system drwyddedu gyfredol i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – yn unol â darpariaethau Deddf Dŵr 2014. Bydd hyn yn golygu y bydd tynwyr dŵr, yn y system newydd, yn meddu ar ganiatadau heb amodau tymhorol neu derfynau amser. Bydd y trwyddedau newydd yn cynnwys amodau amrywiol sy'n cynnwys yn gyffredinol:

- cyfeintiau a ganiateir;
- amodau yn seiliedig ar lif a lefel, yn seiliedig ar amodau presennol; ac
- amodau lleol penodol gan gynnwys uchafswm dyddiol ar gyfer tynnu dŵr.

Bydd y caniatadau hyn hefyd yn amodol ar reolau dalgylch safonol fel, sef rheolau safonol o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Bydd y rhain yn cynnwys amrywiaeth o elfennau fel:

- ar gyfer dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach, rheolau masnachu a gymeradwyir ymlaen llaw, rheolau dŵr bonws a'r sail ar gyfer dyrannu dŵr o gyfrannau;
- ar gyfer pob dalgylch, amcanion amgylcheddol, y system rheolaethau llif a'r sail ar gyfer adolygiadau.

Bydd y rheolau hyn yn cael eu datblygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru a bydd ymgynghoriad arnynt fel rhan o symud i'r system newydd.

**Crynodeb o'r cynigion:**

- Bydd pob caniatâd newydd yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

## System apelio pan drosglwyddir i'r system newydd

**Yr hyn a gynigiwyd gennym yn yr ymgynghoriad**

- Byddai proses apelio ar gyfer trwyddedau newydd yn cael ei rhoi ar waith i ymdrin ag achosion o gamgymeriadau ffeithiol.


Buom yn ymchwilio i sut y gallai proses apelio ehangach weithio yn dilyn adborth gan dynwyr dŵr a oedd yn nodi y dylai'r broses apelio pan drosglwyddir i'r system newydd fod yn ehangach na dim ond ystyried camgymeriadau ffeithiol.

Rydym wedi nodi amrywiaeth o ffactorau y gellid eu hystyried yn ystod apêl, gan gynnwys y canlynol:

- Mae defnydd tynwyr dŵr wedi cynyddu'n sylweddol ers y cyfnod hanesyddol a ddefnyddiwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i asesu faint o ddŵr a gaiff ei dynnu mewn gwirionedd;
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud camgymeriad ffeithiol;
- Mae tynwyr dŵr wedi buddsoddi ar sail y rhagdybiaeth y byddai modd cadw'r cyfaint trwyddedig;
- Mae un o bolisïau eraill y Llywodraeth wedi cyfyngu ar y broses o dynnu dŵr yn ystod y cyfnod hanesyddol.

Efallai y bydd amgylchiadau eraill y gellid eu hystyried gennym yn ystod apêl a byddwn yn ceisio nodi'r rhain wrth inni barhau i ddylunio'r system apelio, gan weithio'n agos â thynwyr dŵr.

Dywedodd tynwyr dŵr wrthym y byddent yn gwerthfawrogi cael gwybod beth yw eu caniatâd tynnu dŵr newydd cyn i'r broses apelio ddechrau. Byddai hyn yn rhoi cyfle iddynt drafod yr amodau a'r cyfaint ar eu caniatâd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a gallai osgoi'r angen am apêl ffurfiol. Rydym yn ystyried sut y gellid ymgorffori'r syniad hwn yn yr amserlen apelio. Yn seiliedig ar hyn, mae Ffigur 2 isod yn dangos trefn bosibl ar gyfer system apelio. Cyn dyrannu'r caniatadau tynnu dŵr newydd, rydym yn bwriadu ymgynghori ar y rheolau rheoli dalgylchoedd.




**Ffigur 2 Trefn bosibl ar gyfer proses apelio**

Mae mwy o waith i’w wneud ar fanylion y broses apelio a sut y byddai’n gweithredu o fewn fframwaith adennill costau.

**Crynodeb o’r cynigion:**

- Bydd tynwyr dŵr yn cael gwybod beth yw’r dyraniad newydd ar gyfer tynnu dŵr cyn i’r broses apelio ffurfiol ddechrau.
- Bydd proses apelio ar gyfer dyraniadau tynnu dŵr newydd sy’n ystyried amrywiaeth o ffactorau.

# 7. Crynodeb o gynigion ar gyfer y broses ddiwygio

Isod rydym wedi crynhoi'r diwygiadau sy'n rhan o'n dull gweithredu arfaethedig.

| Crynodeb o'r broses ddiwygio | Pob dalgylch | Dalgylch sy'n destun amodau llymach |
|---|---|---|
| Gwella hyblygrwydd er mwyn ymateb i faterion argaeledd dŵr tymor byr | | |
| • Dileu'r elfen dymhorol o drwyddedau | ✓ | ✓ |
| • Dŵr ychwanegol pan fydd llifau uchel | | ✓ |
| • Amodau dim ymyrryd â'r llif sy'n cael eu cymhwyso a'u datgymhwyso yn fwy graddol | | ✓ |
| • Rheolaethau ar dynnu dŵr pan fydd llifau isel | ✓ | ✓ |
| • Galluogi masnachu cyflymach a haws | | ✓ |
| Gwella'r broses o reoli dŵr mewn ffordd gynaliadwy a hirdymor gan gefnogi twf a buddsoddiad | | |
| • Rheolau rheoli ar gyfer pob dalgylch | ✓ | ✓ |
| • Adolygiadau sy'n seiliedig ar risg | ✓ | ✓ |
| • Adolygu cyfeintiau a ganiateir pan drosglwyddir i'r system newydd | ✓ | ✓ |
| • Gweithredu'r fframwaith cyfrifo cyfrannau dŵr | | ✓ |
| • Integreiddio cyfeintiau dychwelyd dŵr i'r broses o reoli dalgylchoedd | ✓ | ✓ |
| • Adolygu'r system codi tâl ar gyfer tynnu dŵr | ✓ | ✓ |

# 8. Amserlen a'r Camau Nesaf

## Amserlen ar gyfer deddfwriaeth a gweithredu

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddiwygio'r system gyfredol ar gyfer tynnu dŵr erbyn dechrau'r 2020au.

Y cam nesaf er mwyn gweithredu'r cynigion hyn yw cyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio'r system. Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol wedi'i dilyn gan is-ddeddfwriaeth er mwyn cyflawni'r diwygiadau. I gyd-fynd â hyn, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu'r offer a'r systemau sydd eu hangen er mwyn symud tynwyr dŵr i'r system ddiwygiedig a rheoli'r system honno pan fydd y diwygiadau hynny ar waith.

## Trefniadau trawsffiniol

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu dull ar y cyd o ddiwygio'r system tynnu dŵr gyda Llywodraeth y DU. Bydd y ddwy Lywodraeth yn cyhoeddi dogfen ar wahân sy'n rhoi manylion sut y bydd y diwygiadau'n effeithio ar dynwyr dŵr yng Nghymru a Lloegr. Ein bwriad yw symud tuag at gyd-ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y broses o ddiwygio'r system tynnu dŵr gyda'r rheoleiddwyr yn y ddwy weinyddiaeth yn rheoli'r broses o symud ar gyfer eu tynwyr dŵr.

## Gwaith pellach ar dynwyr dŵr sy'n tynnu dŵr nad yw'n ddarfodadwy

Mae'r datganiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar drin y broses o dynnu dŵr sy'n ddarfodadwy, yn yr un modd â'r ymgynghoriad cyntaf. Rydym hefyd wedi dechrau ymchwilio i'r broses o reoli tynnu dŵr nad yw'n ddarfodadwy na fyddai'n newid llawer o dan y system ddiwygiedig. Fodd bynnag, ymddengys fod cyfleoedd i ymdrin â rhai o'r materion yn y system bresennol fel rhan o'r broses ddiwygio er mwyn sicrhau ein bod yn 'manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau dŵr', er enghraifft:

- adolygu'r gofynion i fonitro a rheoli'r broses o dynnu dŵr nad yw'n ddarfodadwy;
- egluro sut y dylid ystyried y broses o dynnu dŵr nad yw'n ddarfodadwy wrth reoli'r dŵr sydd ar gael yn y system newydd;
- ymchwilio i a oes gwerth rhoi mwy o annibyniaeth i weithredwyr rhwydweithiau dŵr, fel camlesi a systemau ffosydd, wrth reoli eu dŵr.

Byddwn yn ymgynghori ymhellach gyda rhanddeiliaid ar y materion hyn.

### Cymeradwyo cymorth gwladwriaethol

Cymorth gwladwriaethol yw pan fydd adnoddau'r wladwriaeth yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n rhoi mantais ariannol i ymgymeriadau penodol (fel busnesau), gan gymylu'r gystadleuaeth rhwng yr ymgymeriadau hynny a'u cystadleuwyr. Caiff y drefn o roi cymorth gwladwriaethol ei rheoleiddio'n llym o dan gyfraith yr UE. Byddwn yn ymgynghori â'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn pennu a yw'r pecyn diwygio arfaethedig yn cynnwys cymorth gwladwriaethol, a fyddai'n gofyn am hysbysiad a chymeradwyaeth ffurfiol.

## Atodiad A

### Aelodaeth y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio'r System Tynnu Dŵr

Blueprint for Water
British Hydropower Association
British Trout Association
Canals and Rivers Trust
Chemicals Industry Association
Confederation of Paper Industries
Country Land and Business Association
Dŵr Cymru Welsh Water
EEF – The Manufacturers' Organisation
EDF Energy
Energy UK
Food and Drink Federation
Farmers Union of Wales / Undeb Amaethwyr Cymru
Horticultural Trade Association
Mineral Products Association
National Farmers Union
Water UK
Wessex Water

Am ragor o fanylion, gweler: www.gov.uk/government/groups/abstraction-reform

# Atodiad B

**Briff ar Hydroecoleg – Diwygio'r system tynnu dŵr a hydroecoleg**

Ym mis Rhagfyr 2013 cyhoeddwyd ein hymgynghoriad "Manteisio i'r eithaf ar bob diferyn" (Saesneg yn unig) a nododd ein diwygiadau arfaethedig ar gyfer y system rheoli tynnu dŵr.

Nid oedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiwn penodol ar sut y dylid gosod a rheoli llifau amgylcheddol o fewn system newydd ar gyfer rheoli tynnu dŵr. Fodd bynnag, cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at y pwynt hwn wrth ateb cwestiynau sy'n ymwneud ag agweddau eraill ar y cynigion ar gyfer y broses ddiwygio, gan gynnwys:

- troi trwyddedau tymhorol yn drwyddedau tynnu dŵr yn seiliedig ar argaeledd dŵr;
- cysylltu'r broses o dynnu dŵr ag argaeledd dŵr ar gyfer tynnu dŵr wyneb a dŵr daear; a
- defnyddio isafswm lefel reoleiddiol i ddiogelu'r amgylchedd dŵr pan fydd llifau'n isel iawn.

Mewn ymatebion gan amrywiaeth o dynwyr dŵr, codwyd pryderon ynghylch sut y caiff anghenion amgylcheddol eu diffinio. Awgrymodd rhai ddull gweithredu'n seiliedig ar ddealltwriaeth o safleoedd penodol sy'n ymwneud â gofynion llif amgylcheddol a gaiff eu llywio gan ddata monitro hydrolegol ac ecolegol.

Amlygodd ymatebion eraill yr angen i adolygu a diweddaru'r dystiolaeth ar gyfer llifau/lefelau amgylcheddol. Codwyd hefyd yr angen am waith pellach i archwilio dulliau amgen a allai adlewyrchu'n well y gofynion o ran llif/lefel amgylcheddol.

Gwnaeth Cyrff Anllywodraethol amgylcheddol cenedlaethol a lleol sylwadau bod y ffordd o ddiffinio faint o ddŵr sydd ar gael ar adeg benodol ac mewn lle penodol yn fater hollbwysig ar gyfer y broses ddiwygio. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cynnwys yn y diwygiadau sylfaen gadarn ar gyfer pennu llifau amgylcheddol (llifau-a) a lefelau amgylcheddol (lefelau-a), ac felly'r dŵr sydd ar gael i'w ddefnyddio uwchben y trothwyon hynny.

Ceir crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad yma.

## Rheoli tynnu dŵr a'r amgylchedd dŵr

Mae dogfen ategol i'r ymgynghoriad o'r enw 'Managing abstraction and the water environment' yn nodi sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoli tynnu dŵr a'r effeithiau ar yr amgylchedd ar hyn o bryd. Mae'n nodi sut y datblygwyd safonau llif gan Grŵp Cynghori Technegol y

DU[13] (UKTAG) ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a sut mae'r gyfarwyddeb wedi cael ei chymhwyso yng Nghymru a Lloegr drwy ddefnyddio'r Dangosydd Llif Amgylcheddol (EFI).

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymrwymedig i sicrhau bod sylfaen gadarn yn sail i reoli llifau mewn ffordd gynaliadwy. Maent yn gweithio fel rhan o Grŵp Cynghori Technegol y DU er mwyn hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu dulliau ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac maent wedi creu rhaglen adolygu a diwygio ar gyfer gwneud gwelliannau.

## Pa waith sydd wedi digwydd ers yr ymgynghoriad?

Ers yr ymgynghoriad mae nifer o brosiectau wedi cael eu cwblhau neu'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Nod y rhain yw helpu rheoleiddwyr i wella'r dystiolaeth yn barhaus ar anghenion amgylcheddol ar gyfer diwygio'r system tynnu dŵr, gan ystyried y pwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad.

Mae'r prosiect "*Environmental flows: learning good practice from other countries"* wedi edrych ar brofiadau gwledydd eraill o gwmpas y byd mewn perthynas â gosod llifau amgylcheddol ac mae wedi gwerthuso sut y gellid cymhwyso'r arfer da a'r gwersi a ddysgwyd mewn gwledydd eraill i ddulliau rheoli adnoddau dŵr Lloegr yn y dyfodol. Dangosodd canlyniadau'r prosiect fod y dull o reoli llifau-a yng Nghymru a Lloegr ar flaen y gad yn Ewrop er mwyn rheoli llifau-a fel rhan o ofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Fodd bynnag, gallai fod cyfleoedd i ddysgu o elfennau o ddulliau gwledydd eraill wrth bennu llifau-a ac, os bydd angen, datblygu ar y sylfaen gadarn sydd eisoes ar waith yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r prosiect *"Evaluation of Water Framework Directive Water Resources investigations"* wedi edrych ar sut y cyflawnwyd ymchwiliadau i adnoddau dŵr fel rhan o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Yn benodol, mae wedi ymchwilio i sut y defnyddiwyd gwybodaeth fiolegol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ymchwilio yn ymwneud â thynnu dŵr ac effaith ecolegol. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad fod gwybodaeth ecolegol yn cael ei defnyddio i lywio penderfyniadau. Fodd bynnag, mae data biolegol yn y broses o wneud penderfyniadau yn gyffredinol yn cefnogi canlyniadau'r asesiadau cydymffurfio â llif hydrolegol. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar ddadansoddiad biolegol pellach er mwyn lleihau'r bwlch ansicrwydd ar gyfer Cyrff Dŵr a Addaswyd Llawer (HMWB).

Mae'r prosiect *"Environmental flows: systematic evidence review"* wedi cael ei gomisiynu a'i nod yw casglu a chrynhoi'n wrthrychol yr ymchwiliad ar ecoleg mewn afonydd ym Mhrydain. Mae gwybodaeth bellach am y prosiect yn cael ei chyhoeddi ar wefan Collaboration for Environmental Evidence (CEE) (www.environmentalevidencejournal.org) i'w hadolygu gan gymheiriaid.

---

[13] Mae Grŵp Cynghori Technegol y DU (UKTAG) yn bartneriaeth rhwng asiantaethau cadwraeth ac amgylchedd y DU a sefydlwyd gan grŵp polisi'r DU ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sy'n cynnwys gweinyddiaethau llywodraeth y DU. Cafodd ei greu i ddarparu cyngor cydlynol ar agweddau gwyddonol a thechnegol Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd (2000/60/EC).

Mae'r rheoleiddwyr hefyd yn gwella'r sylfaen wybodaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o'r rhwydweithiau monitro. Er enghraifft, mae prosiectau sy'n edrych ar ddeall effeithiau tynnu dŵr ac adfer llif ar ecoleg afonydd gan gynnwys dadansoddi ymateb ecolegol yn dilyn mesurau i liniaru pwysau tynnu dŵr yn Cumbria a Lancashire.

### Gwaith ehangach sy'n cysylltu â'r broses o ddiwygio'r system tynnu dŵr

- Mae'r Canllawiau Monitro Safonau Cyffredin (CSMG)[14] ar gyfer Ardaloedd afonol Gwarchodedig Natura 2000 (N2K) a SoDdGA wedi cael eu hadolygu gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a chyhoeddwyd amcanion diwygiedig yn 2014. Mae'r canllawiau yn cynnwys dull awgrymedig er mwyn asesu cydymffurfiaeth llif.
- Cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd eu cynrychioli ym mhroses Grŵp Gwaith yr UE ar ddatblygu canllawiau llifau-a. Bydd canllawiau'r Strategaeth Weithredu Gyffredin Ewropeaidd[15] a ddeilliodd o'r gwaith hwn yn helpu i osod y fframwaith ar gyfer sut rydym yn datblygu ein dulliau llifau-a ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ochr yn ochr Aelod-wladwriaethau Ewropeaidd eraill.

### Y camau nesaf

Mae'r dull presennol o osod safonau llif drwy ddefnyddio Dangosyddion Llif Amgylcheddol yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Ein nod yw adolygu tystiolaeth newydd yn barhaus yn y maes hwn er mwyn dod o hyd i welliannau posibl ar gyfer ein dull gweithredu.

Mae canlyniadau o'r holl feysydd gwaith uchod yn cael eu hystyried a chânt eu defnyddio i lywio ymateb Cymru a Lloegr i Grŵp Cynghori Technegol y DU (UKTAG) ar gyfer yr adolygiad nesaf o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr y disgwylir iddo gael ei gynnal yn 2018. Yr amcan yw sicrhau bod meini prawf amgylcheddol yn adlewyrchu arferion gorau a'r dystiolaeth sydd ar gael. Mae'r adolygiad o safonau gan UKTAG yn garreg filltir allweddol ar gyfer sicrhau llifau-a gwell ac unrhyw newidiadau ategol i ddosbarthiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr ymgynghorwyd ac y cytunwyd arnynt ar draws y DU. Bydd y safonau a osodwyd gan UKTAG yn llywio terfynau amgylcheddol ar gyfer trwyddedu tynnu dŵr yn y dyfodol, gan gynnwys y rhai ar gyfer diwygio'r system tynnu dŵr.

---

[14] Canllawiau monitro cyffredin ar gyfer afonydd, fersiwn Ionawr 2014, Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur

[15] Llifau Ecolegol wrth weithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, canllawiau'r UE 31 2015

## Atodiad C

### Briff ar Ddŵr Daear - Diwygio'r system tynnu dŵr a hydroddaeareg

Ym mis Rhagfyr 2013 cyhoeddwyd ein hymgynghoriad "Manteisio i'r eithaf ar bob diferyn" (Saesneg yn unig) a nododd ein diwygiadau arfaethedig ar gyfer y system rheoli tynnu dŵr.

Ar gyfer pob math o waith tynnu dŵr (dŵr daear a dŵr wyneb) cynigiwyd y canlynol:

- troi trwyddedau tymhorol yn drwyddedau tynnu dŵr yn seiliedig ar argaeledd dŵr;
- cysylltu'r broses o dynnu dŵr ag argaeledd dŵr.

Yn gyffredinol, mae adnoddau dŵr daear yn ymateb i newidiadau yn y tywydd yn llai cyflym nac adnoddau dŵr wyneb. Mae hyn yn golygu bod cysylltu dyraniad dŵr ag argaeledd yn llai perthnasol ar gyfer dŵr daear. Bydd newidiadau i'r ffordd rydym yn rheoli dŵr daear yn llai amlwg na'r rhai ar gyfer dŵr wyneb.

Rydym wedi ymgynghori ar broses o addasu gwaith tynnu dŵr i gyd-fynd â faint o ddŵr a gaiff ei dderbyn fel dŵr ail-lenwi[16] yn y ddyfrhaen. Byddai argaeledd dŵr daear yn cael ei olrhain drwy gymharu cofnod hanesyddol o gyfartaledd hirdymor y dŵr daear ail-lenwi gyda faint o ddŵr ail-lenwi a gafwyd mewn gwirionedd (awgrymwyd cyfnod o 25 mlynedd). Yna gellid addasu cyfanswm y dŵr daear y gellid ei dynnu o ddyfrhaen dros flwyddyn er mwyn cyd-fynd â chyfanswm gwirioneddol y dŵr ail-lenwi. Dros gyfnod hwy, gallai'r hyblygrwydd hwn helpu i gydbwyso'r gwaith o dynnu dŵr ac ail-lenwi dŵr. Dywedwyd hefyd y byddai mwy'n cael ei wneud i annog masnachu hawliau tynnu dŵr daear.

Roedd ymatebion gan amrywiaeth o dynwyr dŵr yn gofyn am wybodaeth bellach ar sut y byddai'r gwaith o dynnu dŵr daear yn cael ei gysylltu ag argaeledd mewn system newydd. Gofynnodd yr ymatebwyr hefyd i unrhyw ddulliau newydd o reoleiddio dŵr daear gael eu treialu'n drylwyr er mwyn iddynt gael eu teilwra ar gyfer gwahanol fathau o ddyfrhaenau.

### Cysylltu'r broses o dynnu dŵr daear ag argaeledd dŵr

Canfu gwaith a wnaed gan Asiantaeth yr Amgylchedd nad oedd addasu'r dŵr daear a gaiff ei dynnu yn seiliedig ar gymharu dŵr ail-lenwi diweddar a dŵr ail-lenwi hanesyddol yn gweithio'n dda. Roedd rhai o'r dulliau a dreialwyd yn lleihau faint o ddŵr a gaiff ei dynnu fwy na 50% gyda gwelliannau cyfyngedig i'r amgylchedd. Mae hyn yn deillio o natur anrhagweladwy glawiad tymhorol ac arafwch rhai dyfrhaenau wrth ymateb i lefelau is yn sgil tynnu dŵr.

Yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi dod i'r casgliad bod amrywio'r gwaith o dynnu dŵr daear drwy broses adolygu

[16] Dŵr daear ail-lenwi yw'r broses o ddefnyddio glaw i ychwanegu at ddyfrhaenau.

dalgylch sy'n gallu ystyried nodweddion unigol y ddyfrhaen, y pwysau y mae'r dalgylch yn ei wynebu a defnyddio barn arbenigol i ddatblygu'r ymateb gorau, yn well i dynwyr dŵr a'r amgylchedd.

Yng Nghymru, mae llai o ddyfrhaenau sy'n gallu storio cyfeintiau mawr o ddŵr daear. Mae'r dyfrhaenau mwy ymylol yng Nghymru yn storio llai o ddŵr ac felly'n ymateb yn gyflymach i'r newidiadau o ran dŵr ail-lenwi. Er nad yw dŵr daear o'r dyfrhaenau ymylol hyn yn cefnogi nifer fawr o achosion o dynnu cyflenwadau dŵr cyhoeddus, mae'n cefnogi nifer fawr o gyflenwadau dŵr preifat ac, yn bwysig, mae'n darparu llif sylfaen i'n hafonydd a'n gwlyptiroedd. Er gwaethaf y gwahaniaethau o ran hydroddaeareg rhwng Cymru a Lloegr, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r farn mai'r broses adolygu dalgylch yw'r dull priodol i'w ddefnyddio.

### *Masnachu hawliau tynnu dŵr*

Yn dilyn y broses ddiwygio, bydd gan rai tynwyr dŵr mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach[17] fynediad haws i fasnachu dŵr o ganlyniad i sefydlu rheolau masnachu a gymeradwywyd ymlaen llaw.

### *Cynyddu dŵr daear neu fasnachu rhoi a chymryd*

Dyma lle y gall tynnwr dŵr daear ddychwelyd dŵr i afon er mwyn caniatáu i dynnwr dŵr wyneb yn is i lawr yr afon weithredu. Oherwydd natur adnoddau dŵr daear yng Nghymru, nid oes llawer o gyfleoedd ar gyfer cynyddu dŵr daear ar raddfa fawr i greu dŵr wyneb er mwyn caniatáu "masnachu rhoi a chymryd". Felly, nid ydym yn bwriadu ymchwilio ymhellach i "fasnachu rhoi a chymryd" ar hyn o bryd, ond cedwir y penderfyniad hwn i'w adolygu.

### *Newidiadau a datblygu'r dull yn dilyn yr ymgynghoriad*

Yn sgil yr uchod, rydym wedi newid y dull arfaethedig ar gyfer rheoli dŵr daear.

Yn y system ddiwygiedig, caiff caniatadau tynnu dŵr daear eu hadolygu yn unol â'r rheolau ar gyfer dalgylchoedd. Ni fyddwn yn amrywio cyfeintiau neu ddyraniadau i bawb yn seiliedig ar reolau a ddiffiniwyd ymlaen llaw sy'n gysylltiedig ag ail-lenwi neu batrymau tywydd.

### Y camau nesaf

Byddwn yn parhau i weithio tuag at weithredu'r diwygiadau tynnu dŵr ar gyfer pob tynnwr dŵr. Ar gyfer tynwyr dŵr daear, bydd hyn yn cynnwys cytuno ar ddulliau terfynol o drosglwyddo i'r system newydd a datblygu rheolau dalgylchoedd er mwyn cefnogi masnachu mewn dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach.

---

[17] O dan rai opsiynau diwygio'r system tynnu dŵr, byddai rhai dalgylchoedd yn cael eu dosbarthu'n ddalgylchoedd sy'n destun amodau llymach yn dibynnu ar bam or brin yw'r dŵr a manteision masnachu.

Er mwyn paratoi ar gyfer y broses weithredu, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i ymgymryd â chyfnod o dreialu lefelau dalgylchoedd. Bydd hyn yn cynnwys trwyddedau tynnu dŵr daear. Caiff y gwaith hwn ei gwblhau yn 2016 a bydd yn darparu canllawiau rhagarweiniol ar sut i symud gweithgaredd tynnu dŵr daear presennol i'r system newydd.

## Atodiad D

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| **Tynnu dŵr** | Tynnu dŵr o ffynhonnell dŵr wyneb neu ddŵr daear. |
| **Amodau tynnu dŵr** | Amodau sydd ynghlwm wrth ganiatâd tynnu dŵr sy'n gallu rhoi terfyn ar dynnu dŵr neu leihau faint o ddŵr y gellid ei dynnu, er enghraifft llif isel (Llif Dim Ymyrryd), cyfyngiad tymhorol neu ddyddiad dod i ben. |
| **Trwydded tynnu dŵr** | Yr awdurdod a roddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n caniatáu i ddŵr gael ei dynnu o ffynhonnell dŵr wyneb neu ddŵr daear. Mae angen trwyddedau ar hyn o bryd pan fydd mwy na 200 metr ciwbig (tua 4,400 galwyn) y dydd yn cael ei dynnu. Mae gwahanol fathau o drwydded, er enghraifft trwyddedau 'Llawn' neu 'Dros dro' . |
| **System Rheoli Tynnu dŵr** | Y system sy'n rheoli'r broses o dynnu dŵr o ffynonellau wyneb a dŵr daear. |
| **Caniatâd i Dynnu Dŵr** | O dan gynigion i ddiwygio'r system tynnu dŵr, bydd caniatâd i dynnu dŵr, gydag amodau sy'n gysylltiedig â rheolau dalgylchoedd, yn disodli'r drwydded tynnu dŵr. Caiff caniatâd tynnu dŵr ei gyhoeddi gan Cyfoeth Naturiol Cymru. |
| **Lleoliadau tynnu dŵr** | Lleoliad daearyddol ar gyfer tynnu dŵr. |
| **Tynnwr dŵr** | Unigolyn / corff sy'n tynnu dŵr o ffynhonnell dŵr wyneb neu ddŵr daear, er enghraifft ffermwr neu gwmni ynni. |
| **Dyraniad** | (Opsiwn Cyfrannau Dŵr) Cyfaint o ddŵr a ddyrennir i dynnwr dŵr am gyfnod penodol o amser, er enghraifft, 2 wythnos. |
| **Cyfnod dyrannu** | (Opsiwn Cyfrannau Dŵr) Cyfnod ar gyfer y dyraniad. |
| **Dyfrhaen** | Ffurf ddaearegol sy'n gallu storio a throsglwyddo dŵr daear mewn cyfeintiau mawr. |

| | |
|---|---|
| **Dalgylch** | Yr ardal ddaearyddol lle y bydd dŵr glaw a dŵr daear yn casglu ac yn cyfrannu at lif afon penodol.<br><br>**Dalgylchoedd sy'n destun amodau llymach** – O dan yr opsiynau ar gyfer diwygio'r system tynnu dŵr, byddai rhai dalgylchoedd yn cael eu hystyried yn rhai 'sy'n destun amodau llymach' yn dibynnu ar brinder dŵr a manteision masnachu. |
| **Rheolau tynnu dŵr ar gyfer dalgylchoedd** | Rheolau safonol cyhoeddedig o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar gyfer tynnu dŵr mewn dalgylch penodol, a fyddai'n nodi gwybodaeth am reolau tynnu dŵr fel trothwyon llifau; rheolau masnachu ac amodau adolygu'r caniatâd tynnu dŵr. |
| **Tynnu dŵr darfodadwy** | Tynnu dŵr lle y caiff cyfran sylweddol o'r dŵr a dynnir ei defnyddio ac nid oes modd ei dychwelyd i'r ffynhonnell ddŵr ar ôl hynny. Er enghraifft, caiff dŵr a ddefnyddir ar gyfer dyfrhau drwy chwistrellu ei ddefnyddio'n llwyr yn ystod y broses ddyfrhau. |
| **System Gyfredol a Mwy** | Opsiwn yn y broses o ddiwygio'r system tynnu dŵr sydd â'r nod o addasu offer rheoli presennol drwy ddefnyddio trothwyon sbarduno llifau dalgylchoedd er mwyn gwella mynediad i'r dŵr sydd ar gael. |
| **Gollyngiad** | Dychwelyd dŵr a dynnir i'r ffynhonnell dŵr wyneb neu ddŵr daear ar ôl ei ddefnyddio. Cyfeirir ato hefyd fel dŵr a ddychwelir. |
| **Tynnwr dŵr is** | Tynnwr dŵr sy'n is i lawr y dalgylch. |
| **Rheolaethau sychder** | Mae nifer o ddulliau gweithredu cyfreithiol sy'n caniatáu mwy o hyblygrwydd wrth reoli adnoddau dŵr pan fydd dŵr glaw yn brin iawn. Er enghraifft, gall cwmnïau dŵr wneud cais i Cyfoeth Naturiol Cymru am ganiatâd sychder sy'n caniatáu iddynt gymryd dŵr o ffynonellau penodol neu addasu neu ddirymu amodau a gynhwysir yn eu trwyddedau tynnu dŵr. Mae gorchymyn sychder yn ddull gweithredu arall. |
| **Asiantaeth yr** | Rheoleiddiwr amgylcheddol Lloegr. Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n gyfrifol am reoleiddio'r diwydiannau mawr a gwastraff, trin tir sydd wedi'i |

| | |
|---|---|
| **Amgylchedd** | halogi, ansawdd ac adnoddau dŵr, pysgodfeydd, afonydd mewndirol, mordwyaethau aberoedd a phorthladdoedd a chadwraeth ac ecoleg. |
| **Dangosyddion Llif Amgylcheddol** | Dangosydd lefelau llif dŵr sy'n caniatáu i ddirywiad amgylcheddol afonydd gael ei fonitro a'i atal, ac a osodwyd yn unol â safonau'r DU gan Grŵp Cynghori Technegol y DU. |
| **Tâl Uned Gwella'r Amgylchedd (EIUC)** | Tâl a godir ar dynwyr dŵr a ddefnyddir mewn rhai achosion i dalu costau iawndal i dynwyr dŵr pan gaiff eu trwyddedau tynnu dŵr eu hamrywio neu eu dirymu yn orfodol er mwyn lleihau'r risg o niwed amgylcheddol a achoswyd gan dynnu gormod o ddŵr. |
| **Rheoliadau Caniatadau Amgylcheddol** | Mae'r drefn drwyddedu amgylcheddol sengl a grëwyd o dan Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999. Mae pwerau o dan Ddeddf Dŵr 2014 yn galluogi Llywodraeth Cymru i ychwanegu trwyddedau tynnu dŵr i'r drefn Drwyddedu Amgylcheddol. Caiff y gwaith hwn ei weithredu fel rhan o'r broses ddiwygio. |
| **Eithriadau** | Yr achosion o dynnu dŵr y gellid eu gwneud ar hyn o bryd heb drwydded tynnu dŵr. |
| **Terfynau cyfeintiol sefydlog** | Cyfeintiau dŵr fesul awr, dydd a blwyddyn na ddylai trwydded tynnu dŵr fynd y tu hwnt iddynt. |
| **Dŵr daear** | Dŵr a gynhwysir mewn cerrig o dan y ddaear h.y. dyfrhaen. |
| **Ail-lenwi dŵr daear** | Y broses hydrolegol lle mae dŵr yn symud i lawr o ddŵr wyneb i ddŵr daear. |
| **Dim Ymyrryd â'r Llif / Llif Dim Ymyrryd** | Amod sydd ynghlwm wrth drwydded tynnu dŵr sy'n nodi os bydd llif (yn yr afon) yn mynd yn is na'r lefel a nodwyd ar y drwydded, bydd yn ofynnol i'r tynnwr dŵr leihau faint o ddŵr a dynnir neu roi terfyn ar dynnu dŵr. |

| | |
|---|---|
| **Lefel Dim Ymyrryd â'r Llif** | Lefel llif yr afon neu lefel twll turio (dŵr daear) lle y mae angen i dynnwr dŵr leihau faint o ddŵr a dynnir neu roi terfyn ar dynnu dŵr. |
| **Asesiad o effaith** | Mae'n ddau beth:<br>• proses barhaus i helpu'r rhai sy'n gwneud polisïau ystyried a deall goblygiadau ymyriadau posibl a gwirioneddol gan y Llywodraeth yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector;<br>• offeryn i alluogi'r Llywodraeth i ystyried a chyflwyno'r dystiolaeth berthnasol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ymyriadau o'r fath, gan gynnwys drwy adolygu effaith polisïau ar ôl iddynt gael eu gweithredu. |
| **Cyfeintiau trwyddedig** | Faint o ddŵr y mae trwydded tynnu dŵr yn caniatáu i drwyddedwr dŵr ei dynnu h.y. o afon neu ddyfrhaen. |
| **Uned Reoli** | Ardaloedd dalgylchoedd y caiff achosion o dynnu dŵr eu rheoli o fewn iddynt mewn dull cyson. Mae Pwynt Asesu gan bob Uned Reoli fel cyfeirnod llif afon ar gyfer rheoli tynnu dŵr. |
| **Cyfoeth Naturiol Cymru** | Y rheoleiddiwr amgylcheddol ar gyfer Cymru. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn dull cynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol. |
| **Ofwat** | Rheoleiddiwr economaidd ar gyfer y diwydiant dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr. |
| **Masnachu a gymeradwywyd ymlaen llaw** | Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu rheolau sy'n nodi'r mathau o fasnachau a maint y masnachau y gallai tynwyr dŵr eu gwneud heb gymeradwyaeth unigol ar gyfer y fasnach. |
| **Rhaglen Adfer Tynnu Dŵr mewn Dull Cynaliadwy** | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu miloedd o drwyddedau tynnu dŵr er mwyn canfod a yw tynnu dŵr yn achosi problemau amgylcheddol. Pan fydd yn canfod bod y broses tynnu dŵr yn broblem, mae'n gweithio gyda thynwyr dŵr i ddod o hyd i ateb. Dyma'r rhaglen Adfer Tynnu Dŵr mewn Dull Cynaliadwy. |

| | |
|---|---|
| **Dŵr a ddychwelwyd** | Dychwelyd dŵr a dynnir i ffynhonnell dŵr wyneb neu ddŵr daear ar ôl ei ddefnyddio. Cyfeirir at y broses fel gollyngiad hefyd. |
| **Cynllun ailddefnyddio** | Cynllun lle y caiff elifion eu hailddefnyddio gan dynnwr dŵr. Mewn nifer o achosion caiff afon ei defnyddio fel cyfrwng. |
| **Trothwyon adolygu** | O dan gynigion i ddiwygio'r system tynnu dŵr, byddai'r trothwy hwn yn lefel sy'n nodi risg annerbyniol i'r amgylchedd sy'n cael ei hachosi gan dynnu dŵr. |
| **Cynllunio Rheoli Basn Afon** | Basn afon yw ardal o dir lle y mae dŵr wyneb ffo a dŵr ffynnon yn dechrau'r daith ac yn llifo drwy gyfres o nentydd, llynnoedd ac afonydd i'r môr drwy un geg afon, aber neu ddelta. Mae'n cynnwys un dalgylch unigol neu fwy. Ar gyfer pob Rhanbarth Basn Afon, mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ei gwneud yn ofynnol i Gynllun Rheoli Basn Afon gael ei gyhoeddi. Cynlluniau yw'r rhain sy'n nodi amcanion amgylcheddol ar gyfer yr holl gyrff dŵr o fewn Rhanbarth Basn Afon a sut y cânt eu cyflawni. Mae'r cynlluniau yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl o'r pwysau ar y cyrff dŵr ac asesiad o'u heffaith. Rhaid adolygu a diweddaru'r cynlluniau bob chwe blynedd. Mae cynlluniau eisoes ar waith ac yn cael eu diweddaru ar hyn o bryd gyda'r fersiwn derfynol i'w chyhoeddi erbyn diwedd 2015. |
| **Trwyddedau tymhorol** | Trwyddedau sy'n cyfyngu ar dynnu dŵr i adegau penodol o'r flwyddyn. |
| **Masnachau dŵr tymor byr** | O dan yr opsiynau ar gyfer diwygio'r system tynnu dŵr, masnach sy'n cael ei chynnal am gyfnod penodol, gyda'r hawl i dynnu dŵr yn dychwelyd i'r gwerthwr ar ddiwedd y broses fasnachu. |
| **Mesuryddion deallus** | Mesuryddion sy'n monitro defnydd ac yn cyfathrebu'n uniongyrchol â'r cyflenwr/rheoleiddiwr er mwyn dychwelyd gwybodaeth am ddefnydd. |
| **Dyfrhau drwy** | Mae dyfrhau drwy chwistrellu yn ffordd o ddyfrhau lle y caiff dŵr dan bwysau ei chwistrellu dros |

| | |
|---|---|
| **chwistrellu** | blanhigion er mwyn rhoi dŵr iddynt. Dyfrhau yw'r broses lle y caiff dŵr ei roi i dir sych drwy gyfrwng artiffisial fel pibelli. |
| **Dŵr wyneb** | Dyma'r term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio pob nodwedd dŵr, er enghraifft afonydd, nentydd, ffynhonnau, pyllau dŵr a llynnoedd. |
| **Tariffau dwy ran** | Ffordd o godi tâl ar dynwyr dŵr am dynnu dŵr sy'n ystyried faint o ddŵr y maent yn drwyddedig i'w ddefnyddio a faint o ddŵr a ddefnyddiwyd ganddynt mewn gwirionedd. |
| **Trosglwyddo** | Y broses o symud i system ddiwygiedig ar gyfer rheoli tynnu dŵr. |
| **Tynnu dŵr mewn ffordd anghynaliadwy** | Tynnu mwy o ddŵr o'r amgylchedd (h.y. afonydd a dyfrhaenau) nag y gall yr amgylchedd ymdopi ag ef. |
| **Dŵr nas defnyddir** | Dŵr sydd wedi'i awdurdodi i'w dynnu o dan drwydded ond nad yw'r tynnwr dŵr yn ei dynnu o'r ffynhonnell ddŵr. |
| **Y farchnad ar gyfer tynwyr dŵr** | Y farchnad sy'n ymwneud â dŵr a charthffosiaeth nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cwsmer h.y. y gweithgareddau hynny sy'n ymwneud â thynnu dŵr neu gasglu dŵr a charthffosiaeth, eu trin a'u dosbarthu. |
| **Diwygiadau ymhlith tynwyr dŵr** | Diwygio gwasanaethau sy'n ymwneud â chyflenwi dŵr neu drin gwastraff dŵr/carthffosiaeth. |
| **Masnachau mewn dalgylchoedd ehangach** | Pan fydd y tynnwr dŵr sy'n prynu hawliau tynnu dŵr mewn dalgylch uwch na'r tynnwr dŵr sy'n gwerthu'r hawliau tynnu dŵr. |
| **Corff dŵr** | Ardaloedd o ddŵr wyneb neu ddŵr daear lle y caiff asesiadau eu cwblhau o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. |
| **Ecosystemau dŵr** | Cymunedau o organebau sy'n byw mewn ardal o ddŵr ac sy'n dibynnu ar ei gilydd a'u hamgylchedd. |

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD)** | Deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd – Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr<br>(2000/60/CE) – sefydlu fframwaith strategol ar gyfer ddiogelu'r amgylchedd a gwella'r amgylchedd dŵr cyfan. |
| **Sector dŵr** | Cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau dŵr a gwasanaethau carthffosiaeth i gwsmeriaid yng Nghymru a Lloegr. |
| **Cyfrannau Dŵr** | Opsiwn ar gyfer diwygio tynnu dŵr sydd â'r nod o addasu offer rheoli presennol drwy ddefnyddio Cyfrannau Dŵr i ddiffinio'r adnodd dŵr a ddelir gan dynwyr dŵr. |
| **Cronfeydd storio dŵr** | System storio dŵr lle y gallai tynwyr dŵr, fel ffermwyr, storio dŵr a gaiff ei dynnu ar adegau pan fydd llawer o ddŵr ar gael h.y. yn y gaeaf pan fydd llifau afonydd yn uchel, i'w ddefnyddio pan fydd argaeledd dŵr yn fwy cyfyngedig. |